**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 2AIL RHAGFYR, 2021**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021)

**Geraint Owen**
**Pennaeth Gwasnaethau Democratiaeth**
**www.gwynedd.llyw.cymru**


**DYDD MERCHER, 24 TACHWEDD 2021**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 2 RHAGFYR 2021**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 2AIL RHAGFYR, 2021** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



<u>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth</u>

# RHAGLEN


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 5 - 26

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad.

**7. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2022/23** 27 - 32

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM 2022/23** 33 - 52

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**9. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH AMRYWIAETH** 53 - 59

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

**10. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - TREFNIADAU AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR I'R DYFODOL** 60 - 76

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

**11. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** 77 - 81

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**12. PENODI SWYDDOG ADRAN 151 NEWYDD**

Adroddiad i ddilyn.

**13. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GETHIN GLYN WILLIAMS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gethin Glyn Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**Dros y canrifoedd, defnyddiwyd tiroedd ac adnoddau Cymru i echdynnu pob math o nwyddau er budd eraill.**

**Y 'nwyddau' diweddaraf sy'n cael eu cymryd o'n tirwedd yw'r potensial o garbon, gan fod cwmniau buddsoddi o'r tu allan i Gymru yn prynu ffermydd, yn derbyn grantiau mawr Glastir – Creu Coetir (GWC) a defnyddio'r tir i greu coedwigoedd i unioni eu hallyriadau carbon.**

**Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:**

- **Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.**
- **Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.**

**Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru.**

# Y CYNGOR DYDD IAU, 7 HYDREF 2021

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr:- Dylan Bullard, Annwen Daniels, Anwen Davies, Dylan Fernley, Louise Hughes, Linda Ann Jones, Linda Morgan, W.Roy Owen a Gareth Thomas.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir:-

- 28 Mehefin, 2021 (Cyfarfod Arbennig)
- 8 Gorffennaf, 2021

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurodd y Swyddog Monitro:-

- O safbwynt eitem 9 (Diwygiadau i Gytundeb Rhyng-awdurdod Partneriaeth Pensiwn Cymru), nad oedd bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn yn creu buddiant.
- Gan nad oedd eitem 12(c) (Rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Gruffydd Williams) yn ymwneud â chodi lefel y premiwm treth cyngor, nad oedd angen i'r aelodau hynny oedd wedi datgan buddiant ar adeg gosod y premiwm ddatgan cysylltiad yn yr achos hwn.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen ar golli ei frawd yn ddiweddar.
- Teulu Twm Bryn Jones, aelod ifanc o staff yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- Teulu Ann Rhydderch, cyn Brif Archifydd a Swyddog Treftadaeth y Cyngor.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes a Selwyn Griffiths, oedd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Y Cynghorydd Gareth Griffith fu'n cymryd rhan ym Marathon Llundain yn ddiweddar i godi arian i'r elusen Plant efo Cancr UK.
- Elfyn Evans ar ei fuddugoliaeth yn Rali'r Byd yn y Ffindir, a gwahoddwyd y Cynghorydd John Pughe Roberts ymlaen i ddweud gair.
- Pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Amgen Cymru 2021, ac yn arbennig Lleucu Roberts, Rhostryfan, ar ennill 2 o'r prif wobrau, sef Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith.
- Megan Angharad Hunter, Penygroes ar ennill Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021 Llenyddiaeth Cymru gyda'i nofel "Tu ôl i'r Awyr".

Nodwyd ymhellach y cynhaliwyd Diwrnod Golff Elusennol yr Uchel Siryf yng Nghlwb Golff Porthmadog yn ddiweddar. Eglurwyd mai bwriad y digwyddiad oedd codi arian i elusennau'r Uchel Siryf eleni, sef Pact a Gwobr Dug Caeredin. Nodwyd bod criw o bobl ifanc, oedd yn gweithio gyda Nia Rees o Ysgol Eifionydd ac yn aelodau o Wobr Dug Caeredin Ieuenctid Gwynedd, wedi bod yn hwyluso ar y diwrnod, fel rhan o'u gwaith ar gyfer y wobr. Fel diolch am eu gwaith di-dor, cafodd y criw yma ddiwrnod o wers gyda golffiwr proffesiynol y clwb, Mark Pilkington. Nodwyd hefyd bod gan Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd dîm a noddwyd gan Gadeirydd y Cyngor yn cystadlu ar y diwrnod. Roedd y tîm yma, oedd yn cynnwys Tomos Dobson, Jamie Williams a Sïon Endaf Parry, yn un o 14 o dimau a gymerodd ran ar y diwrnod, gydag Andrew Owen, Gweithiwr Ieuenctid (Dalgylch Botwnnog a Glan y Môr) yn cadw'r sgôr. Roedd y Tîm yma wedi dod yn fuddugol yn y gystadleuaeth, ac estynnwyd llongyfarchiadau mawr iddynt.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Mike Stevens

"Mae llawer o aelodau'n teimlo eu bod wedi eu camarwain yn llwyr pan gawsom ein gorfodi i dderbyn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) yn 2017. Ar y pryd dywedwyd wrthym fod y cynllun yn ddogfen fyw y gellid ei diweddaru ar unrhyw adeg.

Dywedir wrthym nawr na ellir diwygio’r cynllun am dair blynedd. O ystyried yr argyfwng tai difrifol a’r prinder tai aruthrol sy’n ein hwynebu, pa gyfarwyddyd a roddir i swyddogion cynllunio i fod yn fwy hyblyg ac yn llai draconaidd wrth ddehongli canllawiau cynllunio er mwyn caniatáu mwy o ddatblygu?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Nid wyf yn derbyn fod aelodau wedi eu camarwain yn 2017 pan fu iddynt fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd. Roedd yr adroddiad cynhwysfawr yn gosod allan y trefniadau monitro blynyddol sydd wedi eu cynnal ers iddo gael ei fabwysiadu. Mae’r cysyniad o fonitro ac adolygu parhaus wedi ei adeiladu i’r drefn Cynllun Lleol, trefniant nad oedd yn rhan o drefniadau cynlluniau datblygu blaenorol.

Mae adroddiadau monitro blynyddol wedi eu paratoi ers mabwysiadu’r Cynllun a’u hystyried yn erbyn y fframwaith fonitro. Cyflwynwyd yr adroddiad monitro cyntaf i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau, pwyllgor y mae’r Cynghorydd Mike Stevens yn aelod ohono, yn 2019, ac ar y pryd trefnwyd sesiynau briffio ar gyfer pob aelod er cyfleu canfyddiadau’r adroddiad. Yn 2020 llaciwyd y gofyn statudol i gyflwyno adroddiadau monitro blynyddol ffurfiol gan Lywodraeth Cymru oherwydd y pandemig. Fodd bynnag bu i’r Cyngor barhau i baratoi adroddiad monitro blynyddol drafft, sydd ar wefan y Cyngor, ac eto trefnwyd sesiynau briffio ar gyfer yr holl Aelodau. Nid oedd y dystiolaeth o’r adroddiadau monitro blynyddol hynny yn cefnogi’r angen am adolygiad buan o’r cynllun. Mae bellach yn bedair blynedd ers mabwysiadu’r Cynllun ac felly mae gofyn cyfreithiol i gynnal adolygiad llawn. Bydd y dystiolaeth o bob adroddiad monitro blynyddol yn cael ei bwydo i mewn i’r broses yma.

Fel yr adroddwyd i’r Cyngor ym Mehefin 2021, mae camau sydd rhaid eu dilyn fel rhan o’r broses adolygu er cytuno ar newidiadau i’r Cynllun.

Boed yn aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio neu’n Swyddogion yn gwneud penderfyniadau dirprwyedig, mae’n rhaid i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn unol â’r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, oni bai fod ystyriaethau cynllunio materol yn dangos fel arall. Mae hyn yn ofyn cyfreithiol.

Mae’r syniad bod cyfarwyddyd yn cael ei roi i ymdrin â’r penderfyniadau yma mewn unrhyw ffordd arall yn gwahodd aelodau a swyddogion i weithredu mewn modd anghyfreithiol. Rwyf hefyd yn ymwrthod â’r datganiad fod swyddogion yn anhyblyg neu’n ddraconaidd wrth roi cyngor. Wrth wneud honiad o’r fath y tu allan i’r sianelau priodol, heb unrhyw gyfeiriad at dystiolaeth, mae’n tanseilio swyddogion mewn ffordd annheg a hefyd yn tanseilio hyder cyhoeddus yn y gyfundrefn gynllunio a rheolaeth datblygu.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Mike Stevens**

“Mae’r ffaith bod y Cynllun Datblygu Lleol yn methu pobl Gwynedd yn amlwg o’r argyfwng rydym yn awr yn ei wynebu. Mae’r cynllun, a fabwysiadwyd yn 2017, wedi dyddio’n ddifrifol oherwydd y ffordd mae’r byd wedi newid. Gan hynny, a wnewch chi drefnu cyfarfod brys o’r Cyngor, a’n bod yn rhoi’r rheolau sefydlog o’r neilltu er mwyn cael trafodaeth lawn ac agored ynglŷn â’r argyfwng presennol?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Mae gen i rywfaint o gydymdeimlad gyda rhwystredigaeth y Cynghorydd Mike Stevens, ond ei gŵyn, mewn difri’, yw cwyn yn erbyn y drefn gynllunio sydd gennym, ac yn bersonol, rwy’n credu bod angen diwygiad radical yn y drefn gynllunio honno. Ond nid ydi hynny ar raglen y Llywodraeth, a hyd yn oed petai ar raglen y

Llywodraeth, byddai'n cymryd blynyddoedd i'w ddatblygu. Mae'r camau rydym ni'n cymryd i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn orfodol arnom. Maen nhw'n statudol. Rydych chi wedi gweld y llythyrau rydym ni wedi derbyn yn ôl gan y Gweinidog. Mae'n rhaid i ni ddilyn y drefn statudol, sef canllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae hynny'n cymryd amser. Mae'n rhaid i ni, a dyma'r pwynt pwysig. Mae'n ddrwg gen i, ond does gennym ni ddim dewis. Os na wnawn ni ddilyn y drefn yma, ac mae'r bygythiad yn glir yn llythyr y Gweinidog, yna fe allem fod mewn sefyllfa lle mae'r Gweinidog yn dweud bod ein cynlluniau ni, neu ein haddasiadau, yn ddi-sail, ac ni fyddwn yn gallu gweithredu. Felly mae'n rhaid i ni wneud hynny, er gwaethaf yr hyn rydym yn feddwl o'r drefn sy'n bod. Gyda llaw, mae'r adolygiad wedi cychwyn a bydd yna gyfarfodydd ddechrau mis Tachwedd ar gyfer yr holl aelodau i chi drafod mater y Cynllun Datblygu Lleol. Yn ychwanegol at hynny, rwy'n credu, o safbwynt y broblem tai haf ac ail-gartrefi, nad trwy'r Cynllun Datblygu Lleol mae ateb hynny, ond trwy faterion eraill. Mae angen adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, ond yn bwysicach na dim, ac rwy'n credu bod hwn yn rhan o'r broses ddemocrataidd, mae'n rhaid i ni gael barn pawb, yr etholwyr, unrhyw fudd-ddeiliaid. Ni fedrwn wthio rhywbeth trwodd yn unig, neu byddwn mewn peryg' o fethu adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n ddrwg gen i anghytuno â'r Cynghorydd Mike Stevens ynglŷn â hyn, ac rwy'n siŵr y cawn ni sgwrs aeddfed am y peth i'r dyfodol."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Angela Russell**

"Hoffwn ofyn cwestiwn am fater yn ymwneud â brechu plant a phobl ifanc yn erbyn Covid-19.

Gai ddweud, reit ar y cychwyn fel hyn, nad ydi hyn ddim byd i wneud hefo rhywun yn coelio mewn Covid neu ddim, na chwaith os ydych chi yn coelio mewn brechu neu ddim. Nid dyma ydw i'n godi drwy ofyn y cwestiwn yma. A rhaid i ni gofio nad oes yr un ohonom yn y cyfarfod yma yn arbenigwyr meddygol yn y maes dyrys yma.

Ond rydw i am ofyn yma am ein cyfrifoldeb ni fel cynghorwyr, a rhai ohonom ni'n llywodraethwyr ysgolion hefyd. Rydw i'n pryderu, yn fawr iawn, am y mater o frechu plant. Wrth i blant a phobl ifanc gael cynnig y brechiad Covid mae'r arbenigwyr yn dweud wrthym y bydd hyn yn lleihau amharu ar addysg y plant yn ystod misoedd y gaeaf, ac o fudd i rai sydd yn byw yn yr ardaloedd tlotaf, neu gydag anhwylderau iechyd yn barod.

Mae'n fy nychryn fod plant, dan 18 oed, yn medru cymryd y brechiad heb ganiatâd rhieni. Rhy ifanc i gael rhyw yn gyfreithlon, i briodi, i bleidleisio ... ond mae'n iawn iddyn nhw gymryd y brechiad heb ganiatâd. Mae hyn yn fy mhoeni yn fawr iawn.

Mae yna nifer fawr o rieni wedi dod ataf yn bryderus iawn am y sefyllfa. Rydw i wedi eu cynghori i ysgrifennu at yr ysgol i ddatgan eu pryderon.

Fel Llywodraethwr dwy ysgol, rydw i'n ymwybodol iawn o fy nghyfrifoldebau fel Aelod o Fwrdd Llywodraethol. Mae athrawon yn gorfod cael caniatâd rhieni i roi tabled i blentyn, i roi eli haul ar y croen, ayb.

In loco parentis – yng nghyfrifoldeb yr ysgol.

- Beth yw ein cyfrifoldeb ni fel Llywodraethwyr, sydd yn Aelodau o Fyrddau Llywodraethol yr ysgolion hyn, a gyda chyfrifoldeb am yr ysgol a'i phlant?

- Beth yw ein cyfrifoldeb ni os bydd rhywbeth, mawr neu fach, yn mynd o'i le os bydd plentyn yn cael ei niweidio gyda brechlyn?

- Beth yw cyfrifoldeb y Bwrdd Llywodraethol amser hynny, a ninnau fel Llywodraethwyr?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Cemlyn Williams**

"Nid wyf am ail-ddarllen yr ymateb ysgrifenedig cyfan, ond mae'r paragraff cyntaf yn dweud yn sylfaenol mai rhaglen sydd yn cael ei rhedeg gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus (GIG) Cymru a Llywodraeth Cymru ydi'r rhaglen frechu. Eu penderfyniad nhw oedd cyflwyno rhaglen frechu i bobl ifanc 12-15 oed.

Mae yna dipyn o wybodaeth gefndirol yn yr ymateb ysgrifenedig, ond yn benodol i ymateb i'r Cynghorydd Angela Russell, mae'r paragraff olaf yn ymhelaethu ar rôl ysgolion a llywodraethwyr, sef er y gall ysgolion, ac yn y cyd-destun yma llywodraethwyr hefyd, wrth gwrs, gytuno i gynnal gwasanaethau imiwneiddio ar y safle a helpu i ddosbarthu gwybodaeth, <u>nid ydynt yn gyfrifol am sicrhau cydsyniad rhiant neu blentyn, asesu cymhwysedd Gillick na chyfryngu rhwng rhieni a phlant sydd efallai yn anghytuno ynghylch a ddylid cydsynio ai peidio.</u> Rôl nyrsys yr ysgol yw hyn, sydd â'r arbenigedd a'r profiad i ymdrin â materion o'r fath. Mae nyrsys cofrestredig yn atebol yn broffesiynol."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Angela Russell**

"Mae meddygon teulu wedi bod yn derbyn dros £25 am y ddau frechlyn Covid a deallaf fod yna £10 ychwanegol am frechu plant. Felly, ydi hyn yn mynd dros £35 fesul plentyn am y ddau frechiad, a phwy sy'n derbyn y pres am frechu miloedd o blant - y nyrs ysgol, yr ysgol, Cyngor Gwynedd neu Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr? Mae llawer o rieni am gadw plant adref. Bydd absenoldebau'n uchel. Faint o bres ychwanegol fydd yna ar gyfer addysgu yn y cartref yn y gyllideb?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Cemlyn Williams**

"Cyn belled ag y mae'r gyllideb yn y cwestiwn, nid wy'n ymwybodol bod yna gost ychwanegol i Gyngor Gwynedd. Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr sydd yn cynnal hyn ac mae gen i wybodaeth bellach am hynny. Fel i mi nodi mewn ymateb i'r cwestiwn gwreiddiol, nid ydi Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn bwriadu cyflwyno'r brechiadau yma mewn ysgolion. Mae'r Bwrdd yn nodi "ar yr adeg hon, nid ydym ni'n bwriadu brechu'r grŵp oedran hwn mewn clinigau mewn ysgolion, ond byddwn yn parhau i adolygu'r penderfyniad hyn. Y bwriad ydi defnyddio canolfannau brechu ar benwythnosau a chyda'r hwyr yn bennaf, a disgwylir i riant fynd gyda'u plentyn i roi cydsyniad". Felly, oni bai bod y sefyllfa yn newid, ni fydd unrhyw gyfrifoldeb ar ysgolion na llywodraethwyr am rôl brechiadau, ac fel rydw i wedi nodi'n barod, dim ond y nyrsys hyfforddedig sy'n gyfrifol am sicrhau cydsyniad rhiant neu blentyn."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"Yng nghyfarfod llawn o'r Cyngor yn 2017 fe basiwyd y Cynllun Datblygu Lleol o drwch blewyn drwy bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Bryd hynny fe fynegodd sawl aelod a bleidleisiodd o blaid ac yn erbyn ei fod yn wallus. Mi ddywedodd yr Arweinyddiaeth fod y Cynllun yn un byw a bod posib' ei newid. Bryd hynny, oni ddylai fod wedi bod yn hanfodol i aelodau'r Cyngor gael gwybod gan yr Arweinyddiaeth a'r Swyddogion bod y broses adolygu oedd am gymryd lle ymhen 4 blynedd yn mynd i gymryd 3 blynedd a hanner ychwanegol?"

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Mae hwn yn gwestiwn digon tebyg i gwestiwn y Cynghorydd Mike Stevens yn gynharach ynglŷn â'r broses creu Cynllun Datblygu Lleol. I raddau, rwy'n rhannu'r rhwystredigaeth ein bod mewn trefn gynllunio hynod glogyrnaidd a statudol, a bod yna gymaint o waith mynd trwy'r holl gamau er mwyn cael y maen i'r wal, ac mae hynny'n wir am y broses monitro ac adolygu hefyd. Mae'n system sydd wedi cael ei gosod mewn statud. Gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ddarllen yr ateb ysgrifenedig, ac ar wahân i hynny, does 'na fawr fedra'i ychwanegu at hynny, heblaw i rannu'r rhwystredigaeth ynglŷn â'r drefn gynllunio."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"O ystyried bod pob un o'r 65 dangosydd yn yr adroddiad monitro diweddar yn datgan bod dim angen gweithredu pellach, yn hytrach na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig ynghanol argyfwng tai, sef awgrymu newid y polisïau, yna mae'n dilyn na fydd yna unrhyw newid i bolisïau yn ystod y cyfnod adolygu. Gan hynny, onid cynllun marwaidd ydi hwn sy'n cyfiawnhau ei hun drwy ystadegau amwys ac yn tynghedu ein cymunedau a'r Gymraeg i farwolaeth, ac felly yn wyneb y ffaith bod yr Arweinyddiaeth wedi ein tywys i gors nad oes modd i ni ddianc ohoni, a ddylent ystyried eu sefyllfa ac ymddiswyddo?"

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Wn i ddim beth fedra'i ychwanegu yn fwy na'r hyn sydd wedi cael ei ddweud yn barod. Nid ydi'r ddogfen yn ddogfen farw. Mae hi'n ddogfen fyw, ac mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae yna bethau wedi newid, wrth reswm, yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf - mae yna newidiadau o ran Wylfa newydd, mae effeithiau Brexit i'w gweld, mae effeithiau Covid i'w gweld ac mae newid hinsawdd yn ffactor. Mae yna newidiadau mawr wedi digwydd, ac mi fydd yna adolygiad, ac mae'n debyg y bydd yn adolygiad fydd yn cymryd peth amser oherwydd y newidiadau sydd wedi digwydd. Felly nid wy'n derbyn hynny. Beth sy'n bwysig ydi, wrth i ni fynd i adolygu, ein bod ni i gyd yn cymryd rhan yn yr adolygiad yna, bod pawb ohonom yn mynychu'r sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer aelodau, a'n bod ni i gyd yn cymryd rhan yn y cyfnod ymgynghori, ac rwy'n meddwl bod hynny'n hollbwysig. Felly nid wy'n derbyn bod 'na gamarwain wedi bod. Roedd yna ddogfennaeth gynhwysfawr yn 2017, ac mae'n hollol glir yn y fan honno beth ydi'r arweiniad ynglŷn â'r drefn adolygu a'r drefn monitro. Felly fedra'i ddim siarad dros bobl oedd, efallai, ddim wedi darllen y dogfennau yn llawn ar y pryd, ond yn sicr, rwy'n rhannu'r rhwystredigaeth ynglŷn â'r drefn, ond dyna ydi'r drefn a gobeithio y byddwn i gyd yn cymryd rhan yn y broses."

**7. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH AMRYWIAETH**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell:-

- Bod y Cyngor yn mabwysiadu Datganiad Amrywiaeth er mwyn datgan yn gyhoeddus fod Cyngor Gwynedd yn hybu a hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth.
- Gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth arwain ar ddatblygu rhaglen waith lawn ar gyfer gwireddu'r datganiad, gan gyflwyno'r rhaglen waith i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod nesaf ar 2 Rhagfyr, 2021.

Gwahoddwyd Arweinydd y Grŵp Annibynnol i ddweud gair, ac yna manylodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol ar y paratoadau ar gyfer cynnal Wythnos Democratiaeth yng Ngwynedd, yn cychwyn ar 18 Hydref. Gofynnodd i bawb rannu'r negeseuon fydd yn cael eu trydar a'u rhannu dros yr wythnos, gan nodi fod bwriad i ail gynnal yr ymgyrch yn Ionawr, wedi cael cyfle i ddysgu gwersi o'r ymgyrch cyntaf.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd pryder bod rhywbeth mawr o'i le pan mae cymaint o aelodau yn cael eu hethol ar y Cyngor yn ddiwrthwynebiad, ac na ellid bod yn siŵr bod yr hyn oedd yn cael ei argymell yn mynd i newid y sefyllfa o ran denu pobl i sefyll etholiad.
- Nodwyd bod y datganiad yn un clodwiw a chroesawyd yr ymgyrch i geisio cael mwy o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd i sefyll fel cynghorwyr.
- Awgrymwyd y dylai'r datganiad gynnwys, nid yn unig merched, pobl ifanc, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, ond hefyd pobl lliw a phobl â nodweddion eraill sy'n cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, megis rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol ei bod yn croesawu'r sylw, ac y byddai'n sicrhau bod y datganiad yn cael ei addasu i adlewyrchu'r pwynt pwysig yma. Byddai hefyd yn sicrhau bod sylw penodol at hyn yn y rhaglen waith fydd yn cael ei datblygu i gefnogi'r datganiad.
- Nodwyd bod rôl amlwg i'r pleidiau gwleidyddol ymestyn allan a chynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am waith cynghorwyr.
- Mynegwyd rhwystredigaeth y gallai arafwch cyhoeddi penderfyniad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffiniau etholiadol fod wedi arafu'r broses o geisio denu amrywiaeth o ymgeiswyr i sefyll etholiad ym mis Mai 2022.
- Awgrymwyd bod angen newid y diwylliant o fewn y Cyngor i'w wneud yn fwy deinamig, gan mai ychydig oedd i'w weld yn digwydd yng Ngwynedd o gymharu â rhai siroedd eraill, a chwestiynwyd tybed oedd hynny oherwydd agwedd uwch swyddogion tuag at rai cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Amrywiaeth isod, a gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ddatblygu rhaglen waith i gefnogi'r datganiad:-**

***"Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan, yn y lle cyntaf, geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl a lleiafrif ethnig sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.***

***"Rydym yn ymrwymo i:-***

- ***Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth***
- ***Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf***
- ***Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022.***
- ***Weithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau.***
- ***Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr***
- ***Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol***
- ***Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.***
- ***Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel."***

**8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – DIWEDDARIAD CYFARFODYDD HYBRID**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol adroddiad yn diweddaru'r Cyngor yn dilyn cymeradwyo trefniadau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ar 8 Gorffennaf, 2021 ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar gynnydd y gwaith yn y cefndir gan nodi, er bod yr amserlen wreiddiol wedi llithro ychydig, bod y gwaith o uwchraddio Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid i'r dyfodol bellach wedi'i gwblhau. Nododd hefyd fod profion cychwynnol o'r dechnoleg yn argoeli'n dda, ond bod mân bethau angen sylw pellach.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Cyfeiriodd nifer o aelodau at fanteision ac anfanteision trefn gyfarfodydd hybrid.

O safbwynt y manteision, nodwyd y byddai'n:-

- Lleihau costau ac amser teithio i gyfarfodydd.
- Lleihau allyriadau carbon.
- Hwyluso cyfranogiad pob mathau o wahanol bobl, megis pobl sy'n gweithio, pobl anabl, gofalwyr, ayb.

O safbwynt yr anfanteision, nodwyd:-

- Bod aelodau yn gweld gwerth mewn cyd-gyfarfod wyneb yn wyneb, a'u bod yn colli'r ymgom a'r rhannu profiadau sy'n digwydd yn naturiol cyn ac ar ôl cyfarfod.
- Bod trefn rithiol neu hybrid yn newid dynameg y cyfarfod, ac nad oes modd adnabod iaith y corff, ayb.
- Bod ymuno â chyfarfod o bell yn gallu bod yn brofiad unig.

Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Cwestiynwyd yr angen i wario £130,000 ar ddatblygu'r system hybrid. Mewn ymateb, eglurwyd bod y swm yma ar gyfer uwchraddio 17 ystafell bwyllgor ar draws y sir, a bod angen sicrhau bod gennym system fodern a dibynadwy yn ei lle. Nodwyd hefyd bod y mwyafrif o gynghorau eraill yn wynebu'r un lefel o gostau.
- Holwyd, os yw bellach yn iawn i athrawon a phlant fynd i'r ysgolion, pam nad yw'n iawn i gynghorwyr fynd i'r Siambr i gyfarfod wyneb yn wyneb? Mewn ymateb, eglurwyd bod cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn eithaf clir y dylem weithio o adref os yn bosib', a hyd oni fyddai'r cyfarwyddyd hwnnw'n newid, ni fyddai'n bosib' cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- Nodwyd bod Senedd Cymru a Senedd San Steffan yn cyfarfod yn hybrid eisoes, a phwysleisiwyd yr angen i symud ymlaen â'r trefniadau yng Ngwynedd cyn gynted â phosib'. Mewn ymateb, eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn gynnar iawn yn ystod y cyfnod, gyda nifer fawr o swyddogion yn gweithio yn y cefndir. O ran cynnydd y gwaith technegol, roedd Gwynedd tua'r canol ymysg cynghorau Cymru, ond gorau po gyntaf y gellid symud ymlaen â'r gwaith treialu, ayb, fel ein bod mewn sefyllfa i weithredu'n gynt, yn hytrach nag yn hwyrach, petai cyfarwyddyd y Llywodraeth yn newid.
- Gan dderbyn mai cyfarwyddyd presennol y Llywodraeth yw i bawb barhau i weithio o adref os yn bosib', holwyd a ydym yn wir yn anelu at gael cyfarfod hybrid neu gyfarfod wyneb yn wyneb o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf? Mewn ymateb, nodwyd ein bod wedi llwyddo i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn effeithiol ers 18 mis, a chan fod y niferoedd achosion Covid ar gynnydd yn ein hardaloedd, roedd

cyfrifoldeb arnom, fel arweinwyr cymunedol, i ddangos esiampl nes bydd y sefyllfa wedi tawelu.

- Awgrymwyd y byddai modd i'r mwyafrif o gyfarfodydd fod yn hybrid, ond y dylai'r Cyngor llawn a chyfarfodydd lle mae cyfrinachedd yn bwysig, megis pwyllgorau penodi, fod wyneb yn wyneb.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y newidiadau a ddaeth yn sgil y cyfnod clo wedi galluogi i swyddogion y Cyngor ddysgu llawer drwy gynnal nifer mwy o gyfarfodydd cenedlaethol nag erioed o'r blaen, gan hefyd ddylanwadu mwy nag erioed o'r blaen drwy gynnal cyfarfodydd rhithiol gyda'r Llywodraeth, ayb.
- Holwyd faint o arbedion costau teithio a wnaed ers cychwyn y pandemig. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod ffigurau costau teithio 2020-21 wedi'u cyhoeddi ar y safle we, a chredid bod yr arbediad yn agos at £40,000.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 9. DIWYGIADAU I GYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo diwygiadau i Gytundeb Rhyng-Awdurdod Partneriaeth Pensiwn Cymru fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Cefnogwyd y cynnig gan aelodau ar y sail:-

- Bod y bartneriaeth wedi gwasanaethu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn dda iawn, ac y byddai'r newidiadau o gymorth i wella perfformiad a'r dull o ddarparu gwasanaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Gan ein bod yn symud i mewn i'r farchnad breifat, bod angen apwyntio dyranwr marchnad breifat sydd â phrofiad a gwybodaeth eang o farchnadoedd preifat, a diau y byddai'r manteision posib' i'r gronfa yn y tymor hir yn gorbwyso costau'r apwyntiad, fyddai'n cael ei ysgwyddo gan y bartneriaeth, ac nid Gwynedd.
- Y byddai dewis cynrychiolydd aelodau'r cynllun o blith aelodau'r byrddau pensiwn a'i gynnwys ar y cydbwyllgor yn lledaenu'r broses o wneud penderfyniadau drwy sicrhau cynrychiolaeth o holl aelodau'r cynllun yn y trafodaethau.
- Y byddai dewis cynrychiolydd aelodau'r cynllun o blith aelodau'r byrddau pensiwn a'i gynnwys ar y cydbwyllgor yn lledaenu'r broses o wneud penderfyniadau, drwy sicrhau cynrychiolaeth o holl aelodau'r cynllun yn y trafodaethau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r diwygiadau i Gytundeb Rhyng-Awdurdod Partneriaeth Pensiwn Cymru fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'r Cyngor.**

## 10. RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu grymoedd i reoleiddio sefydliadau rhyw a'r gofynion cysylltiol.

Ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd ar y wybodaeth gefndirol.

Nododd y Swyddog Monitro fod angen cywiro'r trydydd argymhelliad yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at ddirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau i'r '*Pwyllgor Trwyddedu Canolog'*, i ddarllen '*Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol'*.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd yr adroddiad, a diolchwyd i'r Adran sydd wedi bod yn gweithio ar frys ar y mater polisi hwn.
- Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig cael hawl i reoleiddio'r maes yma, ac er mai sefydliadau lefel isel y sonnir amdanynt yma, a phrin iawn ydynt yn y sir, os o gwbl, rhaid sicrhau bod siopau rhyw yn parhau i fod yn llefydd modern, sy'n gyfeillgar i ferched ac i gyplau, ac nid i ddynion yn unig, fel yn yr oes a fu.
- Nodwyd, er na ragwelid y byddai'r Cyngor yn derbyn cais i drwyddedu sinema oedolion yn yr oes ar-lein ddigidol sydd ohoni, bod y gallu i reoli'r math o gynnyrch allai gael ei ddangos mewn lle felly yn hollbwysig.
- Nodwyd, er na ragwelid y byddai yna sefydliadau adloniant rhyw yn dod i Wynedd, ei bod yn allweddol bod gennym bwerau mewn grym er mwyn gallu gwarchod lles a diogelwch merched sy'n gweithio mewn llefydd fel hyn, gan eu bod ymhlith y mwyaf bregus mewn cymdeithas, ac yn aml yn ifanc iawn.
- Nodwyd, er bod y drafodaeth bresennol wedi'i sbarduno gan gais i agor siop ryw, roedd yn bwysig cofio bod yr un ddeddf sy'n berthnasol yma yn cynnwys mannau adloniant rhyw. Gan hynny, roedd yn ofynnol ystyried goblygiadau pellgyrhaeddol y drafodaeth, rhag ofn i ni wynebu ceisiadau o'r math yn y dyfodol.
- Nodwyd bod sefydliadau rhyw yn atgyfnerthu agweddau diwylliannol niweidiol o ferched, ac yn normaleiddio gwneud merched yn wrthrychau rhyw, a bod y cysylltiad rhwng gwneud merched yn wrthrychau rhyw, eu dad-ddyneiddio a thrais yn erbyn merched wedi ei gydnabod. Roedd llawer o bryder hefyd am y modd mae merched sy'n gweithio yn y busnesau yma'n cael eu trin a'u hecsbloetio. Cyfeiriwyd at waith ymchwil oedd yn dangos bod merched yn teimlo'n fwy diymgeledd a bregus mewn gofodau cyhoeddus pan mae yna ddelweddau rhywiol o ferched wedi'u harddangos yna, ynghyd â gwaith ymchwil arall oedd yn dangos bod yr achosion o aflonyddu'n rhywiol ac o drais yn erbyn merched yn cynyddu yng nghyffiniau'r busnesau yma.
- Awgrymwyd petai'r Cyngor yn gwahardd y busnesau yma, y byddai hynny'n danfon neges glir i bobl Gwynedd, neges a fyddai'n gallu lleihau agweddau niweidiol bechgyn tuag at ferched, a byddai'r polisi hyn yn gyson ag ymdrechion y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gyson gyda'r neges sy'n cael ei chyfleu yn ein hysgolion, sef y dylai bechgyn barchu merched.
- Nodwyd bod mwyafrif y merched sy'n gweithio yn y busnesau yma yn gwneud hynny oherwydd tlodi, diffyg gofal ac anghenion gofal plant, a bod busnesau rhyw yn gwneud elw o ddifreintedd o fewn ein cymdeithas.
- Nodwyd ei bod yn bwysig hefyd bod addysg rhyw a pherthnasau yn ein hysgolion yn trafod y pynciau dwys yma a'n bod yn cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac yn gweithio ar gynlluniau sy'n dod â llwybrau amgen ar gyfer merched bregus, er mwyn atal merched rhag gorfod mynd i weithio i'r busnesau yma yn y lle cyntaf.
- Pwysleisiwyd bod rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu fel Cyngor i atal pob math o ragfarn a thrais yn erbyn merched, a dylem ddilyn esiampl rhai cynghorau eraill drwy weithio tuag at Achrediad y Rhuban Gwyn, sef datganiad bod y Cyngor yn ymroi i weithio tuag at daclo trais yn erbyn merched.
- Holwyd beth fyddai'r drefn o ran trafod ymhellach a chynnig camau pellach i reoli niferoedd posib' busnesau rhyw, neu ddatgan gwrthwynebiad llwyr i fusnesau o'r math yma, yn dilyn y rheoleiddio? Mewn ymateb, eglurwyd mai argymhelliad i'r Cyngor fabwysiadu trefn sy'n caniatáu trwyddedu neu beidio oedd gerbron, ac o gael y disgresiwn statudol yna, ni ellid rhoi safbwynt sy'n dweud na fyddai'r Cyngor yn caniatáu unrhyw un. Mater i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol fyddai ymdrin ag unrhyw geisiadau.
- Nodwyd na fyddai cau'r sefydliadau hyn yn sicrhau diogelwch unrhyw ferch na pherson, ac y dylid eu rheoleiddio, yn hytrach na'u sgubo dan y carped.

**PENDERFYNWYD**

- **Mabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021.**
- **Cyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi'r hysbysebion statudol ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym.**
- **Dirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.**

**11. ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLIADOL GWYNEDD**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad ar benderfyniad Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â Sir Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd, er i'r Cyngor wneud popeth y gallai i sicrhau bod dyheadau'r aelodau yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, bod y Llywodraeth wedi anwybyddu'r sylwadau hynny.
- Nodwyd nad oedd cyfeiriad penodol yn yr adroddiad at rai o wardiau Dwyfor sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau yma, a mynegwyd pryder bod 3 allan o'r 6 sedd sy'n cael ei cholli yn Nwyfor. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adroddiad gerbron y Cyngor yn gryno iawn, ac yn wybodaeth ddaeth i law yn hwyr iawn yn y dydd, ond bod yr wybodaeth gyflawn ynghlwm iddo, ac ar gael ar y fewnrwyd aelodau hefyd. Nodwyd bod y swyddogion yn rhannu rhwystredigaeth yr aelodau bod y penderfyniad swyddogol wedi dod mor hwyr yn y dydd, yn enwedig gan fod yr adolygiad wedi'i gynnal ers bron i 3 blynedd, ond bod croeso i unrhyw un gysylltu gyda'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith i drafod unrhyw ran ohono yn benodol.
- Mynegwyd rhwystredigaeth fod Ward Bethel yn ymuno â ward arall. Pwysleisiwyd bod wardiau aml-aelod yn gam yn ôl i ddemocratiaeth ac atebolrwydd a chwestiynwyd y newid, gan fod y drefn bresennol yn gweithio'n iawn, gyda'r etholwyr yn gwybod â phwy i gysylltu. Nodwyd ymhellach y gobeithid y byddai'r Cyngor yn gallu gwrthod yr adroddiad. Mewn ymateb, nodwyd y cydymdeimlid â'r sylwadau ac y deellid y rhwystredigaeth ynglŷn â chynnwys y ddogfen, ond bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau er gwybodaeth yn unig, ac y dylid cyfeirio'r cwestiwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.
- Mynegwyd siom aruthrol bod Bangor yn colli 3 sedd a 3 ward ar y Cyngor, a phwysleisiwyd yr angen i gadw, neu hyd yn oed gynyddu, y nifer presennol o gynghorwyr er mwyn cynnal democratiaeth y ddinas. Fel dinas prifysgol, gydag ychydig iawn o fyfyrwyr yn cofrestru i bleidleisio, roedd demograffi Bangor yn wahanol iawn i rai ardaloedd eraill o'r sir, ac roedd y wardiau newydd a gynigid ar gyfer Bangor yn anferth o ystyried y boblogaeth leol a'r boblogaeth myfyrwyr sy'n byw ynddynt.
- Nodwyd, fel ardal dwristiaeth gyda nifer uchel o dai haf, bod demograffi rhannau o Ben Llyn hefyd yn wahanol iawn i rannau eraill o'r sir, gan mai ychydig iawn o berchnogion ail gartrefi oedd yn cofrestru i bleidleisio.
- Nodwyd y byddai'r pwysau gwaith ar y 69 aelod fydd yn ceisio cyflawni gwaith y 75 aelod presennol yn aruthrol. Mewn ymateb, nodwyd y byddai yna ofyn, annheg o bosib', i bawb wneud mwy o waith, a bod hynny'n ofyn na ystyriwyd yn llawn gan y Comisiwn Ffiniau na'r Gweinidog wrth ddod i'w penderfyniad.

- Awgrymwyd y gallai'r Llywodraeth fod wedi achub ar y cyfle hwn i gyflwyno Cynrychiolaeth Gyfrannol. Byddai wedyn yn gwneud synnwyr i gael wardiau mwy, a byddai'n ffordd fwy democrataidd o ethol aelodau. O bosib' mai un ffordd o ddenu mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol ar y Cyngor fyddai drwy dorri ar nifer y cynghorwyr yn sylweddol, a gwneud y swydd cynghorydd yn swydd llawn amser.
- Croesawyd y penderfyniad i uno Llanfrothen gyda Ward Tremadog i ffurfio etholaeth 'Glaslyn' newydd, oherwydd y golygai hynny y byddai'r niferoedd etholwyr yn fwy cyson â Ward Penrhyndeudraeth. Fodd bynnag, byddai'r aelod dros y ward newydd yn rhan o Bwyllgor Ardal Meirionnydd a Phwyllgor Ardal Dwyfor, ac yn gorfod mynychu cyfarfodydd 4 cyngor cymuned.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**13. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elwyn Edwards o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**1. Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.**

**2. Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig gan olrhain rhywfaint o hanes ein nawddsant a'i arwyddocâd i ni'r Cymry, gan hefyd bwysleisio mai diben y cynnig oedd ceisio adfer rhywfaint o hunan-barch o ran ein arwahanrwydd a'n hunaniaeth fel cenedl.

Nododd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol:-

- Ei bod yn llwyr gytuno â'r egwyddor, ac yn cefnogi'r alwad i sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel gŵyl banc yng Nghymru.
- O ran rhan gyntaf y cynnig, pe byddai'r Cyngor yn darparu diwrnod ychwanegol o wyliau i staff, roedd yn bwysig nodi nad oedd modd i'r Cyngor ddarparu'r diwrnod hwnnw i rai staff, ac nid i staff eraill sy'n gweithio o dan yr un amodau a thelerau gwaith. Byddai'n rhaid darparu'r diwrnod ychwanegol i'r staff hynny fyddai wrth eu gwaith ar Ddydd Gŵyl Dewi er mwyn ei gymryd ar ddiwrnod arall yn ystod y flwyddyn, a byddai cost ynghlwm â hynny os mai'r dymuniad oedd darparu diwrnod ychwanegol i'r pwrpas yma. Os mai'r dymuniad oedd defnyddio un o'r 1.5 diwrnod o wyliau ychwanegol a ddarperir gan y Cyngor yn bresennol i'r perwyl hwn, byddai angen ymgynghoriad ffurfiol gyda'r undebau llafur cydnabyddedig, gyda golwg ar sicrhau cytundeb torfol cyn gallu gweithredu.
- O ran ail ran y cynnig, roedd yn llawn gefnogi'r alwad, gan ei bod yn warthus ac yn embaras bod yr hawl i greu gwyliau banc wedi'i roi i Lywodraeth yr Alban ac i Lywodraeth Gogledd Iwerddon, ond nid i Lywodraeth Cymru, ac roedd yn barod i sicrhau bod llythyr yn cael ei gyflwyno yn ffurfiol i Lywodraeth San Steffan.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Ei bod yn sarhad arnom ers canrifoedd nad oes gennym fel gwlad yr hawl i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Y ddadl o hyd yw'r gost, ond mae gŵyl banc yn hwb anhygoel i economi cefn gwlad, a dylai dathlu Dydd Gŵyl Dewi fod yn rhan o raglen adfer economaidd ôl-Covid y Cyngor.

- Bod angen gwneud yn glir y dylai Dydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl i'r holl genedl, ac nid i'r gweithlu'n unig.
- Y dylai'r Llywodraeth a phob cyngor arall yng Nghymru frwydro am hyn.
- Bod hyn yn syniad ardderchog, ond gan fod staff y Cyngor yn mwynhau telerau gwaith llawer gwell na gweithwyr yn y sector breifat, dylai'r diwrnod ychwanegol o wyliau gael ei dynnu allan o'u hawl gwyliau presennol.
- Bod dyletswydd ar unrhyw un sy'n byw yng Nghymru i gefnogi ein nawddsant, waeth beth yw eu cefndir a'u traddodiad.
- Bod rhaid bod yn ofalus nad ydym yn gwahaniaethu rhwng gweithwyr sy'n gweithio oddi fewn i'r Cyngor a gweithwyr eraill sydd ynghlwm â gwaith y Cyngor, ond yn cael eu cyflogi gan gwmnïau preifat, megis gofalwyr.
- Nad yw'r ddadl bod ysgolion angen dathlu ar Fawrth y 1af yn dal dŵr. Gall y dyddiad ddisgyn ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul ac mae'n bosib' i'r ysgolion ddathlu ar y diwrnod ysgol agosaf at Ddydd Gŵyl Dewi.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

O blaid (56) Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Yn erbyn (0)

Atal (0)

Nododd y Cadeirydd fod y gwelliant wedi cario.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

1. **Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.**
2. **Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) - yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd yr aelodau Cabinet wedi rhagfarnu eu sefyllfa yn y Cabinet drwy bleidleisio ar y mater, gan y gofynnid i'r Cabinet ystyried y mater yn unig.

Holodd y Cynghorydd Dewi Roberts a ddylai aelodau sydd â theulu'n gyflogedig gyda'r Cyngor ddatgan buddiant. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro, er yn dechnegol

bod ganddynt fuddiant, bod y mater wedi'i drafod a'i basio bellach, ac mai cyfrifoldeb yr aelodau oedd penderfynu a ddylent ddatgan ai peidio.

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Catrin Wager o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**1. Bod y Cyngor hwn yn dymuno estyn croeso cynnes i ffoaduriaid o Affganistan sydd wedi cyrraedd Gwynedd yn ddiweddar, neu a fydd yn cyrraedd yn fuan.**
**2. Bod y Cyngor hwn yn cefnogi egwyddorion sylfaenol:-**
- **Erthygl 14 Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol 1948, sy'n cydnabod hawl pobl i geisio lloches rhag cael eu herlid mewn gwledydd eraill, a**
- **Confensiwn 1951 yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid a Phrotocol 1967 yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid.**

**3. Bod y Cyngor yn bryderus nad yw cynllun newydd arfaethedig llywodraeth y DU ar gyfer Mewnfudo yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir uchod, ac yn gwrthwynebu i wneud y weithred o geisio lloches yn drosedd.**

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Ei bod yn hynod falch bod y Cyngor hwn wedi bod mor barod i gamu i mewn i gynnig cartref i ffoaduriaid o Affganistan, a dyna'r peth cywir i wneud, yn egwyddorol ac yn foesol.
- Ei bod yn bwysig hefyd ein bod yn cydnabod haelioni pobl y sir, sydd wedi cyfrannu nwyddau ac arian sylweddol drwy fudiadau gwirfoddol y sir i'r ffoaduriaid.
- Nad oedd Llywodraeth San Steffan yn gweld y sefyllfa yn yr un ffordd, a dyna pam y gofynnid i'r Cyngor fynd gam ymhellach, a chydnabod yr hawl sylfaenol i ffoi, fel y'i diffinnir gan Gonfensiwn 1951 a Phrotocol 1967.
- Bod yr hawliau hyn mewn peryg' o gael eu tanseilio gan Gynllun Mewnfudo newydd Llywodraeth y DG a'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, sydd eisoes wedi cael ei ddarlleniad cyntaf.
- Nad oedd gwneud ffoaduriaid yn droseddwyr yn mynd i helpu'r sefyllfa, ac yn fwy na hynny, roedd yn anfoesol ac yn gosod cynsail brawychus ynglŷn â'r ffordd rydym yn trin ein cyd-ddyn. Ymgais ydoedd i rwygo cymdeithas, ac i droi un mewn angen yn erbyn y llall, ac roedd yn rhaid i ni ei wrthod.

Ategwyd y sylwadau hyn gan aelod arall, a chynigiwyd gwelliant i'r cynnig, sef bod y Cyngor hefyd yn nodi diolch i drigolion Gwynedd am eu haelioni aruthrol, a'u parodrwydd i gefnogi ffoaduriaid dros y blynyddoedd, ac i fudiadau gwirfoddol y sir, megis Pobl i Bobl, Croeso Menai a Cefn am eu gwaith arbennig yn y maes hwn. Eiliwyd y gwelliant.

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol a'r eilydd i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau yma gyda chydsyniad y Cyngor.

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r gwelliant gan nifer o aelodau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r gwelliant, sef:-**

**1 Bod y Cyngor hwn yn dymuno estyn croeso cynnes i ffoaduriaid o Affganistan sydd wedi cyrraedd Gwynedd yn ddiweddar, neu a fydd yn cyrraedd yn fuan.**
**2 Bod y Cyngor hwn yn cefnogi egwyddorion sylfaenol:-**
- **Erthygl 14 Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol 1948, sy'n cydnabod hawl pobl i geisio lloches rhag cael eu herlid mewn gwledydd eraill, a**
- **Confensiwn 1951 yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid a Phrotocol 1967 yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid.**

**3 Bod y Cyngor yn bryderus nad yw cynllun newydd arfaethedig llywodraeth y DU ar gyfer Mewnfudo yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir uchod, ac yn gwrthwynebu i wneud y weithred o geisio lloches yn drosedd.**

**4. Bod y Cyngor hwn yn nodi diolch i drigolion Gwynedd am eu haelioni aruthrol, a'u parodrwydd i gefnogi ffoaduriaid dros y blynyddoedd, ac i fudiadau gwirfoddol y sir, megis Pobl i Bobl, Croeso Menai a Cefn am eu gwaith arbennig yn y maes hwn.**

(C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**Bod y Cyngor hwn, yn wyneb yr argyfwng diffyg cartrefi a achoswyd gan gynnydd prisiau eiddo, cynnydd ail gartrefi a dylanwad llwyfannau gosod eiddo tymor byr ar-lein, yn gofyn i'r Cabinet glustnodi'r holl arian a gesglir drwy godi premiwm treth cyngor ar ail dai / tai haf ar ddiwallu anghenion trigolion sydd yn byw yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf, sef yn yr ardaloedd hynny lle cesglir y rhan fwyaf o'r premiwm treth. Mae Llywodraeth Cymru'n annog awdurdodau lleol i ddefnyddio unrhyw enillion ychwanegol a gynhyrchir gan godi'r premiwm i gynorthwyo diwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau. Gan dderbyn nad oes gorfodaeth ar y Cyngor i wneud hyn, dyna'r peth cywir i'w wneud a dyna'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan fwyafrif aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd ehangach.**

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Yng nghyfarfod y Cyngor yn Rhagfyr 2016, pan drafodwyd codi premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag, y cafwyd gwelliant bod y mwyafrif o'r arian a dderbynnid o godi premiwm yn mynd tuag at helpu pobl ifanc yn ein cymunedau i gael tŷ fforddiadwy, ac mai'r cymal ychwanegol hwn oedd wedi ysgogi llawer o gynghorwyr i bleidleisio dros y gwelliant.
- Bod y Cynllun Gweithredu Tai 2021-2027 yn clustnodi cyfanswm gwariant o gronfeydd premiwm treth cyngor o £23m, ac er bod cynlluniau i leihau digartrefedd, gwella llety gofal a chefnogaeth i bobl ag anghenion yn gwbl deilwng, roedd yn destun pryder nad oedd y cyllid ar gyfer yr elfennau hyn wedi'i glustnodi o ffynonellau craidd neu ddatblygol y Cyngor.
- Ei bod yn ymddangos bod ymhell dros £10m o'r gronfa premiwm treth cyngor yn cael ei glustnodi ar gyfer gofynion y tu hwnt i gyfarch yr argyfwng diffyg cartrefi, er bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio unrhyw enillion ychwanegol a gynhyrchir drwy godi'r dreth premiwm i gynorthwyo diwallu anghenion tai pobl leol.

Mynegodd yr Aelod Cabinet Tai wrthwynebiad cryf i'r cynnig, gan nodi:-

- Bod y Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredu Tai gwerth £77m mewn ymateb i'r argyfwng cartrefi. Roedd y swyddogion yn gweithredu ar hynny drwy gartrefu pobl leol yn ein cymunedau mewn tai diogel, gwyrdd a fforddiadwy, a'i rôl yntau, fel Aelod Cabinet, oedd herio'r gwaith dydd i ddydd hwnnw.
- Er y pandemig a'r cynnydd digynsail mewn digartrefedd a'r niferoedd ar y rhestr aros am dai, a cholli'r Pennaeth, y llwyddodd yr Adran i wario £1.4m ar adnewyddu tai gwag, yn cynnwys sawl un yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yn y cynnig. Gwariwyd £500,000 ar addasu tai i bobl ag anableddau, rhoddwyd £1m ychwanegol tuag at y cynllun 'Homebuy', crëwyd 4 pod arloesol ar gyfer oedolion bregus a 4 o fflatiau cefnogaeth ieuenctid. Roedd gwaith ar droed i ddatblygu 30 o unedau i unigolion bregus gyda tua £1m ychwanegol yn cael ei wario ar wella cefnogaeth i bobl yn eu tai. Roedd y Cyngor hefyd yn y broses o adeiladu'r tai cyntaf ers degawdau, ac yn edrych ar diroedd er mwyn datblygu tai dros Wynedd.

- Bod yr Adran yn dod i gasgliad ar angen lleol drwy ymgynghoriad, a hynny ddylai fod yn sail i benderfyniadau tai, nid y cynnig hwn, oedd yn golygu na allai'r Cyngor ond gwario arian yn yr ardaloedd lle cesglir y rhan fwyaf o'r premiwm treth.
- Bod yna angen mawr yn ei ward ei hun, ac mewn wardiau eraill ar draws y sir, a dylai arian cyhoeddus gael ei wario lle mae'r angen, ac nid lle mae'r arian yn cael ei gasglu.

Ategwyd sylwadau'r Aelod Cabinet gan nifer o aelodau eraill a fynegodd eu gwrthwynebiad i'r cynnig. Nodwyd:-

- Bod yr egwyddor y dylid gwario'r arian lle mae'r arian yn cael ei godi yn wrthyn o safbwynt tegwch cymdeithasol ac o safbwynt egwyddorion trethiant blaengar, ac o ddilyn yr egwyddor yma i'w eithaf fel llinyn mesur o lle dylid gwario, byddai'r goblygiadau yn gwbl groes i fuddiant Cymru, ac i fuddiant Gwynedd. Ar lefel Prydain, byddai mwyafrif yr adnoddau cyhoeddus yn cael eu gwario yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr; ar lefel Cymru byddai mwyafrif y gwariant ar goridor yr M4 rhwng Casnewydd ac Abertawe, ac ar lefel Gwynedd, byddai mwyafrif y gwariant ar hyd glannau'r Fenai, ac nid ym Meirionnydd a Dwyfor.
- Er y cydnabyddid bod yna angen mawr yn y cymunedau Gorllewinol, bod yna angen tai o fath gwahanol yn y cymunedau trefol, lle mae miloedd ar y rhestr aros am dai cymunedol a 3-4 cenhedlaeth wedi bod ar y rhestr am flynyddoedd, ac yn byw dan amodau anodd iawn.
- Bod y cynnig yn ymddangos fel loteri cod post, a lle fyddai hynny'n arwain wrth ystyried holl wasanaethau'r Cyngor? Petai'r Cyngor yn ystyried mynd i'r eithaf, ac yn ystyried polisi o wario yn y cymunedau lle mae'r Cyngor yn casglu'r dreth, byddai rhai ardaloedd, a hynny'n amlwg yn cynnwys nifer fawr o ardaloedd gwledig y sir, yn colli allan yn sylweddol.
- Bod y cynigydd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cynnyrch y premiwm i gynorthwyo diwallu anghenion tai lleol, ond credid bod 'lleol' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at yr awdurdod lleol, sef Gwynedd gyfan, ac nid plwyfi neu gymunedau'r sir.
- Y gellid dadlau bod angen ystyried yr ochr arall i'r hafaliad o godi premiwm ar eiddo, sef bod colledion sylweddol i'r sylfaen dreth wrth i eiddo symud o'r dreth gyngor i'r dreth fusnes. Yn gyffredinol, roedd y colledion eiddo a'r golled incwm treth yma, yn cyd-fynd â'r ardaloedd lle mae'r incwm premiwm ar ei uchaf, ond yn amlwg, ni fyddai'r Cyngor yn edrych ar hynny'n blwyfol ac yn ystyried gwario llai yn yr ardaloedd hynny.
- Bod unrhyw gynghorydd sy'n gefnogol i'r cynnig hwn yn mynd i orfod egluro i'w etholwyr pam nad oes tai yn cael eu hadeiladu yn eu ward.
- Bod wardiau, difreintiedig o bosib', sy'n ffinio ag ardaloedd gyda nifer uchel o ail gartrefi, yn dioddef mwy o draffig ac ysbwriel yn sgil hynny, a bod prisiau tai yn codi yn y wardiau hynny hefyd. Fodd bynnag, o fabwysiadu'r cynnig, ni fyddai'r wardiau hynny yn derbyn unrhyw arian premiwm.
- Y byddai mabwysiadu'r cynnig yn golygu y byddai cynghorwyr yn blwyfol ac yn ymladd yn erbyn ei gilydd fesul ward am arian. Roedd pob aelod yn adnabod ei ardal ei hun, ond nid oedd yr un aelod yn unigol yn deall y sefyllfa ar draws y sir gyfan. Rôl yr Aelod Cabinet a'r swyddogion oedd deall hynny a chlustnodi lle mae'r angen mwyaf. Gellid llwyr ymddiried yn yr Aelod Cabinet i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario mor effeithiol â phosib' ar draws y sir er mwyn cyfarch yr angen, a mwy na thebyg y byddai hynny'n cynnwys yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf.
- Bod y Gymraeg yn fyw ymhob cornel o Wynedd, ac nid ym Mhen Llyn yn unig, ac roedd yna frwydro i gadw'r Gymraeg yn iaith gymunedol mewn llefydd fel Bangor.

- Bod pawb ar yr un ochr eisiau gweld pobl ifanc lleol yn cael yr hawl i fyw adref. Roedd yna argyfwng cartrefi yn y trefi hefyd, am wahanol resymau o bosib', ond yr un oedd yr angen, ac roedd angen datrysiad teg i holl bobl y sir.
- Bod pobl yn prynu tai ym Mangor, nid i fyw ynddynt, ond fel buddsoddiad i wneud elw, a bod hynny'n creu problemau aruthrol hefyd.
- Bod yr aelodau'n ffyddiog y bydd y Strategaeth Tai yn mynd i'r afael â'r argyfwng cartrefi i bobl leol ym mhob rhan o Wynedd, a dylid cefnogi'r strategaeth a rhoi cyfle iddi weithio er budd pobl ifanc a phobl leol ar draws y sir.
- Beth am y sefyllfa lle mae'r gymuned gynhennid wedi'u gwthio allan i ardal gyfochrog? Beth am lefydd lle mae twf yn digwydd rŵan o ran ail gartrefi, megis y bröydd llechi? Ydyn nhw ddim am gael cefnogaeth?

Cefnogwyd y cynnig gan nifer o aelodau eraill. Nodwyd:-

- Bod yna broblem diffyg cartrefi enfawr yn Nwyfor a Meirionnydd, a diffyg gweithredu gan gymdeithasau tai i adeiladu tai ar rent i bobl leol mewn ardaloedd megis Abersoch a Blaenau Ffestiniog.
- Bod rhai perchnogion tai yn symud eu tenantiaid allan er mwyn trosi'r tai hynny yn dai haf.
- Bod rhai perchnogion ail gartrefi yn ddigon bodlon talu'r premiwm, cyn belled â'u bod yn gweld bod eu harian yn mynd tuag at ddiwallu anghenion tai yn yr ardal.
- Dylai anghenion y digartref, unigolion gydag anghenion cymdeithasol, ayb, gael eu hariannu o ffynonellau craidd neu ddatblygol y Cyngor.
- Bod yna brinder tai gwag i ddod yn ôl i ddefnydd a phrinder tir ar gyfer adeiladu oherwydd cyfyngiadau'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd angen ymestyn y ffiniau datblygu a gwneud darpariaeth, nid yn unig ar gyfer y digartref, pobl gydag anghenion cymdeithasol a'r anabl, ond hefyd pobl ifanc broffesiynol, sydd wedi'u gwthio allan o'r farchnad dai.
- Nad oedd y Cynllun Gweithredu Tai yn cyfeirio at Dywyn, nac unrhyw le i'r De o Abermaw.
- Bod Shelter yn dweud nad oes gwahaniaeth rhwng person digartref yn Nhudweiliog a pherson digartref yn Grangetown, Caerdydd, ond yr un gwahaniaeth sylfaenol ydi bod digartrefedd yn Nhudweiliog yn effeithio'n ddybryd ar y Gymraeg yn y pentref hwnnw. Gan hynny, roedd angen sylw penodol ar gyfer yr ardaloedd Cymraeg.
- Bod y cynigydd yn ymdrechu'n frwd dros ei fro a'r hawl i fyw adra. Roedd y sefyllfa'n hynod rwystredig, a faint o dystiolaeth oedd ei hangen i brofi ei bod yn argyfwng arnom? Roedd yn rhaid gwneud rhywbeth, a chredid bod y cynnig yn codi cwr y llen ar sut i ariannu'r broblem yma.
- Bod yna wahaniaeth rhwng y stoc tai sydd ar gael yn yr ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol. Gellid prynu tŷ mewn tref am tua £100,000 o hyd, ond yn ogystal â bod yn llawer drutach, roedd y stoc tai sydd ar gael yn yr ardaloedd gwledig yn is hefyd. Ers i'r Cabinet gau ysgolion Carmel a'r Fron, gwelwyd cynnydd yn nifer y tai haf a thai Airbnb yn yr ardal, a byddai'r un peth yn digwydd yn Abersoch yn dilyn penderfyniad y Cabinet i gau ysgol y pentref.
- Mai'r peth mwyaf y gallai'r Cyngor ei wneud i helpu pobl ifanc fyddai caniatáu morgeisi iddynt, yn unol â'i hawliau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- Mai pwrpas y pot ail gartrefi yw helpu pobl yn y cymunedau hynny lle mae gormodedd o ail gartrefi, yn benodol Dwyfor a Meirionnydd, a dylid clustnodi'r arian ar gyfer hynny'n unig.
- Bod y cymunedau gwledig arfordirol yn gwagio'n sydyn. Parc gwyliau anferthol fydd Pen Llyn fel mae pethau'n mynd, ac ni fydd neb lleol yn gallu fforddio byw yno, oni bai am yr hwb ariannol o arian y premiwm.
- Er y cytunid gyda chraidd y cynnig, awgrymid, yn hytrach na bod yr '*holl arian'* a gesglir o'r premiwm yn cael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg

cartrefi ar ei waethaf, y dylai '*canran uchel'* neu '*fwyafrif llethol'* yr arian gael ei wario yn yr ardaloedd hynny.

- Bod angen mynd ar ôl y bobl hynny sydd wedi trosi eu heiddo o'r dreth gyngor i'r dreth fusnes, ac wedi elwa o'r grant Covid i fusnesau lletygarwch.
- Bod y drafodaeth wedi amlygu'r tensiynau rhwng y trefi mwyaf ac ardaloedd arfordirol gwledig Dwyfor a Meirionnydd, lle mae'r problemau'n bodoli. Ni chredid bod pobl yn y trefi yn llawn sylweddoli dimensiwn y broblem yn y cymunedau gwledig oedd dan straen anferth, ac roedd y sefyllfa wedi gwaethygu'n ddifrifol dros gyfnod y pandemig.

Nododd rhai aelodau eraill eu bwriad i atal eu pleidlais ar y cynnig. Nodwyd:-

- Er y deellid ysbryd y cynnig, nad oedd yna ffiniau i'r argyfwng cartrefi yn y sir, ac y byddai'n anodd i aelodau bleidleisio dros y cynnig ac yna wynebu pobl yn eu ward, lle mae yna achosion yr un mor deilwng.
- Nad oedd yn syndod bod disgwyliad bod yna ryw fath o berthynas eglur rhwng yr arian sy'n cael ei godi o'r premiwm a chynlluniau yn yr ardaloedd sy'n dioddef waethaf ar hyn o bryd o ganlyniad i'r argyfwng ail-gartrefi, ond roedd yn anodd iawn penderfynu beth sy'n deg, beth ydi'r angen a lle mae'r angen, gan fod gennym gymaint o broblem gyffredinol tai ar draws y sir, a sawl gwedd i'r broblem yma.
- Yn hytrach na diystyru'r cynnig yn llwyr, dylid ail-ymweld â hyn i gyd yn y dyfodol, gan edrych ar yr union berthynas rhwng casglu a gwariant, a chael y drafodaeth os nad yw'n ymddangos bod yna fuddsoddiad teg neu gymesur mewn cynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r ffaith bod pobl ifanc yn methu cael cartrefi.
- O ystyried dyfnder yr argyfwng cartrefi ar hyn o bryd a'r angen am ddatrysiad brys i'r sefyllfa, bod yna drafodaeth ofalus i'w chael hefyd ynglŷn ag a ddylai peth o'r arian i helpu'r cynlluniau ddod o ffynonellau craidd y Cyngor a chronfeydd datblygol.
- Bod y Cynllun Gweithredu Tai yn addawol, yn arloesol ac yn bellgyrhaeddol, a bod rhaid rhoi cyfle iddo weithio.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau, nododd y Prif Weithredwr:-

- Bod ganddo gydymdeimlad llwyr â phwynt sylfaenol y cynigydd, gan fod pawb yn dymuno gweld cymaint o adnoddau â phosib' yn cael eu cyfeirio at roi mwy o gyfleoedd i'n trigolion lleol fyw yn ein cymunedau.
- Ei bod yn ddyddiau cynnar iawn yn oes y Cynllun Gweithredu Tai (7 mis i mewn i'r cynllun 6 blynedd), ond bod yna lwyddiannau cynnar iawn i'w gweld yn barod. Er enghraifft, roedd bron i 100 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy arian y premiwm yn benodol, a diau y byddai yna lwyddiannau ymhob rhan o'r sir, gan gynnwys yr ardaloedd ar hyd yr arfordir Gorllewinol.
- Bod y Cynllun Gweithredu Tai yn gynllun £77m gyda'r incwm sy'n dod i mewn o'r premiwm yn £23m. Byddai'r Adran yn gwario'r sylweddol uwch na'r £23m yna ar y mathau o gynlluniau y byddai'r aelodau'n dymuno gweld yn digwydd. Roedd yna gynllun penodol am £15m ar gyfer prynu tai yn ôl oddi ar y farchnad, oedd ynddo'i hun yn 75% o incwm y premiwm, ond yn dod o ffynhonnell hollol wahanol.
- Na allai'r Cynllun Gweithredu Tai ddatrys ein holl sefyllfa dai, ac roedd angen newidiadau cenedlaethol, gan gynnwys arian ychwanegol o gyfeiriad y Llywodraeth, a newidiadau ar yr ochr cynllunio.
- Bod y Cyngor wedi gwneud yr hyn y gallai o safbwynt defnyddio ein harian ein hunain a llunio Cynllun Gweithredu sy'n destun eiddigedd gan gynghorau eraill ar draws y wlad. Byddai adroddiad craffu ymhen tua blwyddyn yn dangos yr hyn fyddai wedi'i gyflawni, a hyderid y byddai'n llwyddiant mawr iawn ac yn gwneud cymaint o gyfraniad â phosib' tuag at y sefyllfa.

Cynigiwyd gwelliant bod y *'mwyafrif llethol'*, yn hytrach na'r '*holl'* arian a gesglir o'r premiwm yn cael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf.

Nododd y Swyddog Monitro fod y term '*mwyafrif llethol'* yn amhendant o ran ei ystyr, a gofynnodd i gynigydd y gwelliant gadarnhau ai '*mwyafrif'* yr arian a olygai mewn gwirionedd.

Nododd aelod ei fod yn gweld y broblem gyda'r term *'mwyafrif llethol'* ac nad oedd yn hapus gyda '*holl arian'* chwaith, ac awgrymodd y gallai *'canran uchel'* fod yn gyfaddawd o bosib', petai cynigydd y cynnig gwreiddiol yn barod i dderbyn hynny.

Gofynnodd y Swyddog Monitro am eilydd i'r gwelliant, sef '*mwyafrif'* yr arian.

Nododd cynigydd y gwelliant ei fod am dynnu ei welliant yn ôl, ac eilio '*canran uchel'* o'r arian.

Eglurodd y Cadeirydd nad oedd cynnig i'r perwyl hynny wedi'i wneud.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod '*canran uchel'* o'r arian a gesglir o'r premiwm yn cael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf.

Trafodwyd y gwelliant.

Nododd yr Aelod Cabinet Tai nad oedd yn glir iddo beth fyddai'n pleidleisio drosto, gan nad oedd cyfeiriad yma at unrhyw ffigwr penodol.

Nododd rhai aelodau eraill:-

- Nad oedd y gwelliant yn helpu'r sefyllfa o gwbl, ac y byddai'n well gwrthod y gwelliant a'r cynnig.
- Y cytunid â'r gwelliant gan mai pwrpas y premiwm oedd helpu pobl ifanc yn ein cymunedau i gael tŷ fforddiadwy, a bod yna botiau eraill o arian i ymateb i bethau eraill.

Nododd y Swyddog Monitro fod '*canran uchel'* yn derm penagored, ac nad oedd yn eglur o ran ei ystyr na'i arwyddocâd.

Rhoddwyd rhybudd o welliant pellach, sef bod '*70%*' o'r arian a gesglir o'r premiwm yn cael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf.

Nododd y Prif Weithredwr, petai'r gwelliant yn cario a'r mater yn mynd yn ei flaen i'r Cabinet, mai mater i'r Cabinet fyddai dehongli ystyr '*canran uchel'*, a gofynnodd i gynigydd y gwelliant a ddymunai ail-ystyried.

Nododd y cynigydd ei fod yn parhau'n awyddus i roi'r gwelliant i fyny, a chadarnhaodd yr eilydd ei fod yntau am ddal at y gwelliant hefyd.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod '*70%* o'r arian a gesglir o'r premiwm yn cael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf.

Trafodwyd y gwelliant.

Nododd yr Aelod Cabinet Tai nad oedd yn glir iddo a olygai'r gwelliant y byddai 70% o'r premiwm yn cael ei wario yn y 50.1% o ardaloedd lle mae'r argyfwng ar ei waethaf.

Nododd y Prif Weithredwr nad oedd y cynnig gwreiddiol yn anffodus yn diffinio '*yr ardaloedd lle cesglir'* a gofynnwyd i'r cynigydd daflu rhywfaint o oleuni ar hynny.

Nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol ei fod yn anodd ei ddiffinio, ond o ran diffiniad fforddiadwyedd, y golygai'r ardaloedd hynny sydd bellach yn ardaloedd lle na all y mwyafrif llethol o bobl leol brynu tŷ. Ychwanegodd fod 60% o bobl Gwynedd yn methu prynu tai, ond yn yr ardaloedd dan sylw ganddo, roedd y ffigur yn nes at 90% bellach, ac ni chredai ei bod yn anodd gweithio allan lle mae angen gwario'r arian.

Nododd y Prif Weithredwr, o ran yr ardaloedd a sut mae eu diffinio, mai'r unig beth penodol y gellid ei roi fyddai'r ardaloedd sy'n cyfrannu'r mwyafrif o'r incwm, felly byddai'n rhaid gosod y ganran ar 50.1%.

Nododd cynigydd ac eilydd y gwelliant eu bod yn fodlon gyda'r eglurhad yma.

Nododd aelod, waeth pa ffordd y byddai'r Cyngor yn pleidleisio ar y mater, mai'r Cabinet fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniad yn y pen draw.

Holwyd ar ba sail y gellid dweud bod mwyafrif arian y premiwm yn cael ei gasglu yn yr ardaloedd arfordirol Gorllewinol, oherwydd os ydi'r ail gartrefi'n troi'n fusnesau, nid ydynt yn talu'r premiwm. Gan hynny, o bosib' mai'r bobl fyddai ar eu colled petai'r cynnig yn cael ei basio fyddai'r bobl sy'n cyfrannu fwyaf, ac sy'n sybsideiddio pobl sydd wedi gwerthu tai yn yr ardaloedd hynny. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y papur '*Amcangyfrif o'r swm o'r premiwm ail gartrefi a thai gwag a gesglir mewn plwyfi ers Ebrill 2018'* a anfonwyd fel gwybodaeth gefndirol at yr aelodau cyn y cyfarfod, gan egluro bod oddeutu'r 12 cymuned uchaf ar y rhestr yn disgyn oddi fewn i'r 51%.

Mynegodd yr Aelod Cabinet Tai ei ddymuniad i gael cymaint â phosib' o gymunedau i mewn i'r grŵp yma, a gofynnodd a fyddai modd i'r ganran fod yn 50.1%, yn hytrach na 51%.

Er eglurder, nododd y Prif Weithredwr mai geiriad y gwelliant oedd:-

"Bod y Cyngor hwn, yn wyneb yr argyfwng diffyg cartrefi a achoswyd gan gynnydd prisiau eiddo, cynnydd ail gartrefi a dylanwad llwyfannau gosod eiddo tymor byr ar-lein, yn gofyn i'r Cabinet glustnodi <u>70% o'r arian</u> a gesglir drwy godi premiwm treth cyngor ar ail dai / tai haf ar ddiwallu anghenion trigolion sydd yn byw yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf, sef yn yr ardaloedd hynny lle cesglir <u>51%</u> o'r premiwm treth. Mae Llywodraeth Cymru'n annog awdurdodau lleol i ddefnyddio unrhyw enillion ychwanegol a gynhyrchir gan godi'r premiwm i gynorthwyo diwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau. Gan dderbyn nad oes gorfodaeth ar y Cyngor i wneud hyn, dyna'r peth cywir i'w wneud a dyna'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan fwyafrif aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd ehangach."

Nodwyd, wrth i ffigurau'r gwahanol ardaloedd newid o flwyddyn i flwyddyn, y byddai rhai cymunedau'n symud i mewn ac allan o'r 51%. Er hynny, byddai cynlluniau tai yn cymryd sawl blwyddyn i'w gwireddu, a holwyd sut oedd y Cabinet am ddatrys y broblem honno?

Mewn ymateb i gwestiwn, ymhelaethodd y Prif Weithredwr ar y cymunedau unigol fyddai'n derbyn y 70% o arian y premiwm yn ôl ffigurau'r 4 blynedd diwethaf fesul blwyddyn, ac ar gyfartaledd.

Nododd yr Arweinydd fod y drafodaeth wedi arwain at gymhlethdod hollol ddiangen, ac argymhellodd wrthod y gwelliant a'r cynnig gwreiddiol.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Yn ei sylwadau cloi, nododd cynigydd y rhybudd o gynnig:-

- Ei bod yn amlwg bellach o'r drafodaeth fod y cynnig yn mynd i ddisgyn, ond bod yr arian ychwanegol sydd wedi'i godi o'r premiwm yn bwrs ar ei ben ei hun.
- Na allai dros 90% o bobl Dwyfor a glannau Meirionnydd, a rhai o'r ardaloedd o gwmpas Llanberis bellach fforddio byw yn eu hardaloedd.
- Iddo ofyn i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Tai ac Eiddo faint o arian y premiwm sydd wedi'i wario yn ôl plwyf, a chael yr ateb mai ychydig o wariant o gronfa'r premiwm treth cyngor sydd wedi'i wario hyd yma, a hynny er gwaethaf y ffaith bod yr arian wedi bod yn cael ei gasglu ers 4 blynedd.
- Y dymunai alw am bleidlais gofrestredig ar ei gynnig gwreiddiol fel bod pawb o'n trigolion yn gweld sut mae eu cynrychiolwyr wedi pleidleisio ar y bleidlais dyngedfennol hon i geisio cadw ein cymunedau Cymraeg.

Ar bwynt o drefn, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd yn bosib' dechrau gwario'r arian nes bod y Cynllun Gweithredu Tai yn ei le, ac y disgwylid y byddai'r gwariant yn cynyddu'n sylweddol o hyn ymlaen.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig gwreiddiol:-

<u>O blaid</u> (15) Y Cynghorwyr:- R.Glyn Daniels, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Aeron M.Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Kevin Morris Jones, Dewi Wyn Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

<u>Yn erbyn</u> (25) Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Beca Brown, Gareth Wyn Griffith, Annwen Hughes, R.Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Rheinallt Puw, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

<u>Atal</u> (13) Y Cynghorwyr:- Menna Baines, Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Simon Glyn, Judith Humphreys, Aled Wyn Jones, Elwyn Jones, Keith Jones, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts a Gethin Glyn Williams.

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig gwreiddiol wedi colli.

**PENDERFYNWYD gwrthod y rhybudd o gynnig.**

(CH) Nododd y Cadeirydd ei fod am ohirio'r rhybudd o gynnig isod a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

**Bod y Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y ddeddf gynllunio ac yn ei wneud yn orfodol i unrhyw berson sydd am drosi tŷ annedd yn dŷ haf orfod cael hawl cynllunio i wneud hynny a bod yna drothwyon yn cael eu gosod mewn ardaloedd i gyfyngu ar y niferoedd o dai haf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 6.20 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **2 Rhagfyr 2021** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas,**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2022/23** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2022** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1 Tynnir sylw aelodau'r Cyngor fod gofyn statudol i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn yn flynyddol, hyd yn oed os nad oes newid yn y cynllun ers y flwyddyn flaenorol. Dyna'r achos eleni – argymhellir dim newid i'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 3 Rhagfyr 2020.**

**1.2 Gofynnir i aelodau hefyd nodi fod yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor YN UNIG, sef cynllun cymorth sydd yn seiliedig ar brawf modd mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol amdano gan y Gwasanaeth Budd-dal. NID YW'R CYNLLUN HWN, na'r adroddiad yma, yn berthnasol i unrhyw gynllun disgownt neu eithriad Treth Cyngor arall (e.e. disgownt person sengl, eithriad eiddo gwag sy'n cael ei adnewyddu, tai myfyrwyr).**

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2022/23.

2.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

2.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029), rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2021/22) gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2020.

2.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

2.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

2.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei newid ar gyfer 2022/23.** Mae eglurhad manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

## 3. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**3.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2022 fel ag yr oedd yn ystod 2021/22. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**3.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2022/23, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2012, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (SI 2013/3029) yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

4.3 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2021/22 gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2020. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 5. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2022/23

5.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

5.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

5.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

5.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Gellir defnyddio disgresiwn i wneud yn elfennau hyn yn fwy hael na'r cynllun cenedlaethol, ond nid yn llai hael.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

5.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Oherwydd hyn, mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn Strategaeth Ariannol 2022/23. Ym mis Tachwedd 2021, roedd 28 o hawlwyr yn manteisio o'r disgresiwn yma.

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

5.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir y bydd cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn 2021/22 oddeutu £1,300. Yn 2021/22 hyd at ganol Tachwedd, roedd 18 achos lle roedd "taliadau estynedig" o'r fath wedi eu caniatáu yn unol â'r Cynllun Rhagnodedig.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

5.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £18,526 fydd cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2021/22, gyda 105 hawliad wedi cael peth elfen o ôl-ddyddio yn 2021/22 hyd at ganol Tachwedd.

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**5.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2022/23 yn unol â threfniadau cyfredol 2021/22.**

## 6. YMGYNGHORI

6.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

6.2 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni.

## 7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1 Fel nodir ym Rhan 4 o'r adroddiad yma, yng nghyd-destun y Cynllun Rhagnodedig sydd yn ei le ar gyfer holl hawlwyr Gostyngiad Treth Cyngor ar draws Cymru gyfan, cyfyngedig iawn yw'r disgresiwn lleol sydd ar gael i awdurdodau lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol, ar wahân i dri maes penodol iawn.

7.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynllun cenedlaethol, sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb. Cynhaliwyd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol yn 2013 pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, a bryd hynny gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno'r cynllun lleol tra'n cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn a'r baich yn disgyn ar yr holl grwpiau.

7.3 Mae'r Cyngor angen penderfynu, felly, yw os ydi'r penderfyniadau a geisir yn 2.1 a) – c) yn effeithio ar unrhyw un sydd ag un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyfan. Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2022/23 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ers 2013. Mae asesiad a gynhaliwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn yn awgrymu fod casgliadau asesiad 2013 yn parhau'n ddilys ac na fydd y penderfyniadau cyfyngedig hyn a geisir yn effeithio unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig yn wahanol i'r boblogaeth gyfan.

## 8. ADNODDAU

8.1 Mae costau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn y 'setliad' grant i'r awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, ond dylid nodi nad yw'r setliad yn cyfarch holl gost y Cynllun Gostyngiadau.

8.2 Mae'r Cyngor yn ariannu cyfran o gostau'r Cynllun, y balans uwchben y cyfraniad sydd wedi ei gynnwys yn y setliad, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.

8.3 Tra mae awdurdodau lleol yn derbyn cyfraniad tuag at gostau'r Cynllun o fewn y setliad blynyddol, ers sefydlu'r Cynllun yn 2013 nid yw'r setliad wedi adlewyrchu'r gwir gost lawn. Ni fydd cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2022/23 (yn ôl rhaniad tybiannol cyfanswm yr Asesiadau Gwariant Safonol rhwng gwasanaethau yn nhablau'r setliad amodol) yn wybyddus tan bydd y setliad drafft yn cael ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr.

8.4 Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd ar gyfer 2021/22 oedd £8.541m, ond ar gychwyn y flwyddyn ariannol amcangyfrifwyd y byddai'r gwir wariant oddeutu £11m. Yn sgil y pandemig byd-eang a'i effaith andwyol ar yr economi, bu cynnydd arwyddocaol yn nifer yr hawlwyr dan y Cynllun yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 ond erbyn diwedd ail chwarter 2021/22 roedd y nifer wedi gostwng i'r hyn oedd cyn y pandemig..

| | **Nifer** | **Gwariant (effaith blwyddyn gyfan)** |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2020 | 8,978 | £9,516,565 |
| 30 Medi 2020 | 9,283 | £10,006,243 |
| 31 Mawrth 2021 | 9,442 | £10,128,772. |
| 30 Medi 2021 | 8,898 | £9,924,205 |

8.5 Nid oes dewis ond wynebu cost parhaus y Cynllun, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol wrth lunio cyllideb 2022/23.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **2 Rhagfyr 2021** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Ioan Thomas**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2022/23 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)** |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o **ail gartrefi** ac **eiddo gwag hir dymor**.
2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.
3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.
4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).
5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**ARGYMHELLION**

6. **Argymhellir fod y Cyngor yn gwneud <u>dim newid</u> i'r cynllun ar gyfer 2022/23. Hynny yw, ar gyfer 2022/23:**
   - **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
   - **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
   - **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

## CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

7. Rhoddir disgresiwn i Gynghorau o dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i ganiatáu disgownt, ai peidio, i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthau A a B) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.

8. Mae Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B).

9. Yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105) mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

   - **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
   - **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
   - **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

10. Diffinnir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

11. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068) yn eithrio ail gartrefi Dosbarth A rhag talu'r Premiwm.

## POLISI CYFREDOL A BWRIAD

12. Roedd y Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgresiwn o dan Reoliadau 1998, a hefyd wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ddosbarth C (eiddo gwag) pob blwyddyn ers pan ddiwygiwyd y rheoliadau hynny ar gyfer 2009/10.

13. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).

14. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

    https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4

15. Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2020 penderfynodd y Cyngor ohirio penderfyniad ar y disgowntiau a premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2021/22 a gofyn I'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu lefel y Premiwm i hyd at 100%. Gofynnwyd i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol, a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

16. Wedi pwyso a mesur canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ac ystyriaeth o'r risgiau perthnasol, ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu lefel y Premiwm i 100% ar eiddo perthnasol. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

    https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&

17. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.

18. Mae strategaeth ariannol 2022/23, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2022/23.

19. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

20. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016 cyn gwneud y penderfyniad cyntaf i godi Premiwm, ac yna yn 2020/21 yn sgil cais y Cyngor llawn i adolygu'r raddfa. Gan nad oes bwriad newid y drefn ar gyfer 2022/23, nid yw cynnal ymgynghoriad pellach yn angenrheidiol.

**AIL GARTREFI**

21. Wrth benderfynu yn Rhagfyr 2016 i godi Premiwm ar Dreth Cyngor ail gartrefi yn 2018/19, rhoddwyd sylw i astudiaethau manwl oedd wedi cael eu cynnal ar effaith ail gartrefi ar gymunedau Gwynedd. Canlyniad y gwaith hwnnw oedd fod ail gartrefi yn cael effaith andwyol ar gymunedau. Nid oes tystiolaeth fod y sefyllfa wedi newid ers hynny.

22. Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 yn nodi (yn rhan 6.4.96) fod "*fforddiadwyedd yn fater ar draws ardal y Cynllun*" a bod "*tystiolaeth yn awgrymu bod yr angen am dai fforddiadwy yn uwch mewn pentrefi arfordirol, yn enwedig oddi mewn i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar hyd arfordir Meirionnydd*". Dyma'r ardaloedd gyda'r crynhoad mwyaf o ail gartrefi.

23. Nid oes tystiolaeth ychwaith fod codi'r Premiwm wedi cael unrhyw effaith ar y diwydiant twristiaeth ers 2018.

24. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig, am fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny. Mae'r trosglwyddo wedi cyflymu, ac mae mwyafrif yr eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw dreth yn daladwy arnynt.

25. Ers 1 Ebrill 2014, mae cyfanswm o **2,405** eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig gan fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi eu dynodi'n eiddo hunan-ddarpar yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

26. Mae nifer y trosglwyddiadau yn dangos tueddiad i gynyddu:

| Blwyddyn ariannol | Nifer eiddo'n trosglwyddo |
|---|---:|
| 2021-22 (hyd at 30/9/2021) | 212 |
| 2020-21 | 506 |
| 2019-20 | 397 |
| 2018-19 | 454 |
| 2017-18 | 282 |
| 2016-17 | 199 |
| 2015-16 | 167 |
| 2014-15 | 188 |
| **Cyfanswm** | **2405** |

27. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r sefyllfa yma ar hyn o bryd ac wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Awst a Tachwedd 2021. Rydym yn aros i weld canlyniad yr ymgynghoriad hwn a chamau nesaf y Llywodraeth.

**EIDDO GWAG**

28. O safbwynt tai gwag, mae'r Cyngor yn datgan "*Gall tai sy'n wag achosi niwsans a difrod i dai cyfagos. Maent hefyd yn wastraff oherwydd gallent gael eu defnyddio fel cartrefi*".

29. Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Ers Ebrill 2021, mae hyn wedi cynyddu i 200% o'r dreth cyngor ar eiddo a fu'n wag am 12 mis neu fwy (ar ôl bod yn 150% yn y cyfnod 2018-2021). Byddai atal y Premiwm, neu gynnig disgownt, yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi o leiaf 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd.

30. Un o prif flaenoriaethau'r Cyngor (Blaenoriaeth Gwella 4) yw "Mynediad at gartrefi addas." Mae hyn yn cynnwys rhaglen o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o dai addas a fforddiadwy.

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

31. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

32. Gwnaed y penderfyniad cyntaf i gyflwyno Premiwm yn Rhagfyr 2016, yn dilyn ystyriaeth o Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd wedi ei gynnal yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor.

33. Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr wrth ystyried cynyddu'r Premiwm ym Mawrth 2021. Ers hynny, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, sy'n berthnasol i Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r Cyngor, wrth wneud "penderfyniadau strategol" megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys y byddai graddfa'r Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor yn "benderfyniad strategol" yn unol â'r ddyletswydd yma.

34. Fel nodir yn "Cefndir Deddfwriaethol" uchod, cyflwynwyd y grym i godi premiwm gan y Ddeddf Tai, gyda'r disgwyliad sylfaenol fod y rhai sy'n gallu fforddio mwy nag un eiddo yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn ariannol i ymdrin â phroblemau tai yn eu hardaloedd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartref o gwbl.

35. Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.

36. Credwn mai nod greiddiol y Premiwm, felly, ydi lleihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

37. Nid ydym yn credu fod materion cydraddoldeb penodol pellach sydd angen tynnu sylw'r Cyngor atynt wrth ystyried y mater yma, ac yn dilyn ychwanegu'r ystyriaethau economaidd-gymdeithasol priodol iddo, rydym o'r farn fod yr AEC yn parhau'n ddilys. Mae'r asesiad addasedig wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

38. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

39. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

40. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

41. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

42. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

    1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
    2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
    3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
    4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
    5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

43. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

**DEFNYDD CYNNYRCH Y PREMIWM**

44. Ers cyflwyno'r Premiwm ar 1 Ebrill 2018 mae'r cynnyrch wedi cael ei roi mewn cronfa benodol oedd wedi ei sefydlu i ariannu cynlluniau o'r Strategaeth Dai. Mabwysiadwyd y Cynllun Gweithredu Tai gan Gabinet y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2020 ac mae'r cynllun hwn yn nodi'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r cynnyrch hwn:

    https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1

45. Mae amcangyfrifon darbodus oedd wedi eu cynnwys yng nghyllideb 2021/22 (ar ôl ystyried trosglwyddiadau eiddo o'r gyfundrefn Treth Cyngor, ail gartrefi yn symud yn ôl i fod yn brif gartrefi ayb) yn nodi'r disgwyliad y bydd £3.9m ychwanegol o gynnyrch Premiwm y flwyddyn ar gael i'r gronfa yn sgil cynyddu lefel y Premiwm o 50% i 100%.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Fel y nodir yn yr adroddiad mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'n briodol felly fod penderfyniad ar gyfer Disgowntiau a Premiwm Treth Cyngor yn derbyn ystyriaeth gan y Cyngor llawn. Fe nodir yn yr adroddiad fod proses ymgynghori wedi ei chynnal ar gyfer cynyddu lefel y premiwm i 100% ar gyfer 2021/22, yr uchafswm statudol. Gan nad yw'r argymhelliad yn gwyro oddi wrth y penderfyniad yma mae'n dderbyniol dod i'r farn nad oes angen ymgynghori eto.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Ers Ebrill 2018 mae'r Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Cyngor ar 3 Rhagfyr 2020 yn argymell cadw lefel y Premiwm yn 50% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig hwn, sef bod y Cabinet yn ystyried ymgynghori ar cynyddu lefel y premiwm i hyd at 100%, ac fe'i basiwyd. Y ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, cytunodd y Cabinet i gynnal

ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ar ôl ystyried materion perthnasol, gan gynnwys sefyllfa dai Gwynedd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, bu i'r Cabinet argymell cynyddu lefel y Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor i 100% yn 2021/22. Cafodd hyn ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021

## 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)

## 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn Tachwedd 2021er mwyn cymryd ystyriaeth o'r Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:
Adran Cyllid
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
Y Cyngor Llawn

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchodedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchodedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| | |
|---|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 1 Chwefror 2021. Derbyniwyd 6,213 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig.<br><br>Roedd barn y rhai a atebodd wedi ei rannu, ond roedd dros 70% o'r rhai a ymatebodd yn erbyn cynyddu lefel y Premiwm. Yn gyffredinol, roedd perchnogion ail gartrefi yn arbennig yn gwrthwynebu'r bwriad i godi unrhyw bremiwm, tra fod cyfran sylweddol arall yn cefnogi codi premiwm o hyd at 100%.<br><br>Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.<br><br>Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.<br><br>Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd tystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchodedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.<br><br>Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn. | . |

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| | |
|---|---|
| Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes tystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prisio allan o'r farchnad dai leol.<br><br>Ar 25 Tachwedd 2020, roedd:<br>• 4,718 eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)<br>• 165 o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau statudol | |

- 811 eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol a na ellir codi Premiwm.

Ar yr un adeg, roedd 1,130 eiddo yn destun y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor

Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth bleidleisio ar y gwelliant i ohirio’r penderfyniad ar godi premiwm yn 2021/22 oedd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae’r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â’r sefyllfa.

Mae’r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae’n amlygu fod nifer o ffactorau sy’n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae’n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy’n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy’n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i’r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â’r fantais trethiannol sy’n bodoli o fod yn cwrdd â’r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i’r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw’r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Rhagfyr 2020, roedd 33.9% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o’i gymharu â 21.5% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.8% o’r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o’r themâu oedd yn dod o’r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a’u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma. |
| | Negyddol | Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.<br><br>Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeilliant positif. |
| **Anabledd** | Ansylweddol | Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun anabl yn cadw eiddo sydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall. |
| **Rhyw** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Oedran** | Positif | Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.<br><br>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (*Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England*) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth.<br><br>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hŷn, ond disgwylir y bydd y bobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy.<br><br>Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hŷn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma.<br><br>Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.<br><br>Mae'r y grym i godi premiwm wedi ei gyflwyno trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r canllawiau statudol yn nodi:<br><br>*Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:*<br>• *adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a*<br>• *chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.* |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.<br><br>Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Fel nodir yn 3.1 uchod, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi trethiant yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai yn Rhagfyr 2020 sy'n cynnwys ystod o brosiectau yn eu lle i wneud y defnydd o gynnyrch y Premiwm er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anfantais economaidd-gymdeithasol. Yr egwyddor sylfaenol yw fod y rhai sy'n gallu fforddio sawl eiddo yn cynorthwyo'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartrefi o gwbl. Y prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai sy'n gwneud defnydd o arian y Premiwm yw:

- Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref
- Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref
- Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys
- Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat
- Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon
- Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol
- Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.
- Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai

- Plotiau hunan adeiladu
- Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag
- Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf
- Cynllun cymorth prynu
- Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol
- Elfen trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol
- Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai er mwyn cyfrannu tuag at ein dyhead i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Cynllun peilot Tai Arloesol
- Ariannu'r diffyg ariannol yn achosion busnes tai arloesol
- Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid
- Tai gofal estynedig – henoed
- Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys
- Cartrefi addas i blant gyda anghenion corfforol dwys
- Frondeg, Caernarfon
- Benthyciadau di log i wella cyflwr tai
- Siop un stop i faterion Tai

### 3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Credwn fod y polisi eisoes yn dangos ymrwymiad llwyr i roi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ac nad oes angen mesurau neu newidiadau eraill.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

Microsoft Word - 0.2Asesiad_Effaith_Cydraddoldeb_CGT.doc (llyw.cymru)

| |
|---|
| Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.<br><br>Mae manylion am asesiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.<br><br>Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwyso hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.<br><br>Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | ✓ |

| | |
|---|---|
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson.  Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru.  Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref.  Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson.  Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

Mae unigolion sydd o blaid ac yn erbyn codi'r Premiwm wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r un cwestiwn ar effaith y Premiwm ar yr economi (gan honni ei fod yn "arwain"), sy'n awgrymu fod y balans y cwestiynau yn gywir.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law.  Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig. |

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 2il Rhagfyr 2021 |
| **TEITL YR EITEM** | Datganiad Cyngor Gwynedd ynghylch Amrywiaeth |
| **PWRPAS** | Mabwysiadu'r rhaglen waith yn amlinellu'r camau er mwyn gwireddu Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd. |
| **ARGYMHELLIAD** | Cynghorydd Anne Lloyd Jones,<br>Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **AELOD CABINET PERTHNASOL** | Cynghorydd Nia Jeffreys |
| **SWYDDOG(ION) CYSWLLT** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer cefnogi Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd.

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**Rhagair**

1. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth er mwyn datgan yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad ni yng Ngwynedd i amrywiaeth mewn democratiaeth. Mae'r datganiad wedi ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor gyda chopi i'w weld yn **Atodiad A**.

2. Yn amlwg mae'n ofynnol sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu'r datganiad uchod. Penderfynodd y Cyngor ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth arwain ar ddatblygu rhaglen waith llawn ar gyfer gwireddu'r datganiad gan fod aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi arwain ar y maes yng Ngwynedd ers rhai blynyddoedd.

3. Cafodd y rhaglen waith ei thrafod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 16/11/2021. Ar argymhelliad y pwyllgor, fe'i cyflwynir i'w mabwysiadu gan y Cyngor llawn. Gweler y rhaglen waith yn **Atodiad B**.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Rwy'n croesawu y rhaglen waith a argymhellir yn yr adroddiad. Gyda'r Datganiad mae'n gyfrwng i amlygu ac adeiladu diwylliant a gweithrediadau cadarnhaol ar gyfer aelodau a darpar etholedig yn benodol. Mae hefyd yn asio gyda ac yn cefnogi y diwylliant a hyrwyddir drwy Safon Gwynedd a'r Cod Ymddygiad.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ATODIAD A - Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd**

*Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl, pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n adnabod fel LGTBQ+ sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.*

*Rydym yn ymrwymo i*

- *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth*
- *Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf*
- *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022.*
- *Weithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau.*
- *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr*
- *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol*
- *Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.*
- *Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.*

**ATODIAD B – RHAGLEN WAITH DDRAFFT**
**Wrth ymrwymo i fod yn Cyngor Amrywiol, rydym am:**

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth* | Cyngor llawn yn mabwysiadu datganiad amrywiaeth.<br><br>Holi aelodau am eu profiadau, gan gynnwys pa rwystrau sydd wedi eu hwynebu a pha gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i ddileu'r rhwystrau hyn. Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud gyda'r grŵp merched sy'n gynghorwyr.<br><br>Diweddaru safle we 'bod yn gynghorydd' gan weithio gyda'r tîm etholiadau<br><br>Cynnal ymgyrch, dan faner 'Wythnos Democratiaeth' yn y lle cyntaf i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl cynghorwyr, eu rôl o fewn y gymuned a sut i ddod yn gynghorydd. Datblygu "strapline" i'r wythnos megis "wyt ti am i dy lais gael ei glywed? Beth am sefyll fel Cynghorydd?<br><br>Parhau gyda'r ymgyrch 'farchnata' uchod i godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd gan weithio gyda'r tîm etholiadau i godi sylw at fuddion pleidleisio, hawl pleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed, a chodi ymwybyddiaeth o etholiadau Llywodraeth Leol ar yr un pryd. Y cyfan yn annog unigolion i ystyried bod yn gynghorydd.<br><br>Parhau i weddarlledu cyfarfodydd er mwyn bod yn agored a thryloyw. Ystyried datblygu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal a'r eitemau sy'n cael eu trafod. | 07/10/2021<br><br>Tachwedd/ Rhagfyr 2021<br><br>Medi /hydref 2021<br><br>Hydref 2021<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| *Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf* | Codi ymwybyddiaeth arweinyddion y grwpiau gwleidyddol cyfredol i'r posibiliadau o hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a'r gofynion ynghylch hyrwyddo'r safonau ymddygiad o'r lefel uchaf yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan drafod y posibilrwydd o benodi Llysgenhadon Amrywiaeth o fewn y grwpiau gwleidyddol.<br><br>Datblygu rhaglen anwytho gynhwysfawr yn seiliedig ar fframwaith anwytho Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnwys hyfforddiant ar | Medi 2021 a Tachwedd 2021<br><br>Ebrill 2022 |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| | y Cod Ymddygiad (gan gynnwys parch at eraill), a Chydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys hunan ymwybyddiaeth ac ymddygiad.<br><br>Parhau i ddatblygu rhaglen hyfforddiant yn flynyddol mewn ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn cynnig datblygiad parhaus. | <br><br><br>Ebrill 2022 |
| *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022* | Cynnal rhaglen o weithgareddau ar lein yn ystod wythnos democratiaeth Gwynedd er mwyn hyrwyddo rôl Cynghorwyr a chodi ymwybyddiaeth i etholiadau Llywodraeth Leol gan annog unigolion i ystyried sefyll (rhaglen barhaus yn cychwyn Hydref 2021 gan ail adrodd ar gyfnodau penodol)<br><br>Cynnig sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer pobl sy'n ystyried sefyll fel pen llanw i wythnos democratiaeth Gwynedd. Bydd yn cynnwys esboniad o rôl cynghorydd, disgwyliadau, ymrwymiad, cyfleon, cefnogaeth ayyb. Bydd fideos o wahanol gynghorwyr yn rhannu eu profiadau yn debygol o fod yn rhan o'r gweithgaredd.<br><br>Cynnig sylwadau fel rhan o ymgynghoriad i'r holiadur ymgeiswyr, ac yna annog pob unigolyn sy'n sefyll i ymateb i holiadur Llywodraeth Cymru.<br><br>Mynychu gweithdy amrywiaeth mewn democratiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Cymru er mwyn dysgu gan banel sy'n brofiadol yn cefnogi rhai o grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli yn draddodiadol, yn arbennig mewn gwleidyddiaeth.<br>Addasu y rhaglen waith yn dilyn yr uchod os yn berthnasol. | Hydref 2021 a Ionawr 2022<br><br><br><br><br><br>Hydref 2021 a Ionawr 2022<br><br><br><br><br><br><br><br>Tachwedd 2021 Mawrth/Ebrill 2022<br><br>Tachwedd 2021 |
| *Gweithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau* | Datblygu rhaglen anwytho a hyfforddiant lawn fel a nodwyd uchod.<br><br>Ystyried datblygu trefniadau mentora a/neu gysgodi fel rhan o'r rhaglen ar gyfer cefnogi Cynghorwyr newydd. | Ebrill 2022<br><br><br>Ebrill 2022 |
| *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr* | Ystyried cynnal hyfforddiant penodol i Gynghorwyr newydd ar weithion unig, diogelwch personol, balans bywyd a gwaith, bwlio a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r rhaglen anwytho dros y flwyddyn gyntaf. | Ebrill 2022 |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| | Parhau i gynnig sesiynau llesiant meddyliol a chefnogaeth pellach i aelodau.<br><br>Darparu cefnogaeth ac arweiniad ar faterion ymarferol o safbwynt gosod gweithfan yn gywir – gwybodaeth ar safle mewnrwyd y cynghorwyr.<br><br>Cynnig cyfle i Gynghorwyr sy'n dymuno i nodi cyfeiriad swyddogol yn hytrach na chyfeiriad cartref ar y safle we.<br><br>Codi ymwybyddiaeth arweinyddion gwleidyddol o'r dyletswydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch hyrwyddo ymddygiad da. | Rŵan / parhaus<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Tachwedd 2021 |
| *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol* | Gweithredu cyfarfodydd hybrid a chyfarfodydd rhithiol llwyr er mwyn gwneud gwell defnydd o amser Cynghorwyr.<br><br>Cynnal holiadur yn dilyn etholiad 2022 ar amseru cyfarfodydd prif bwyllgorau'r cyngor.<br><br>Ystyried cyfnodau gwyliau ysgol (gan eu hosgoi lle bo'r modd) wrth lunio calendr cyfarfodydd blynyddol y cyngor gan ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.<br><br>Sicrhau hyfforddiant a chymorth i Gynghorwyr i fod a'r sgiliau technegol i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol ac/neu hybrid. | Datblygu'n gyfredol<br><br>2022/23<br><br>Blynyddol<br><br>parhaus |
| *Parhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio* | Gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol i fod yn rhan o'r sesiynau i'r cyhoeddus yn yr wythnos ddemocratiaeth, yn wybodaeth ar ein safle we, a gwybodaeth yn llawlyfr Cynghorwyr sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y sesiynau anwytho.<br><br>Cyflogau yn cael eu talu yn awtomatig i Gynghorwyr yn unol â dyfarniad Panel Annibynnol Cymru, oni bai fod Cynghorydd unigol yn nodi yn wahanol.<br><br>Cynghorwyr yn cael eu hatgoffa yn gyson o'r ad-daliad costau gofal sydd ar gael – trwy newyddlen Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau | Hydref 2021<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| | Democratiaeth a gan yr Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol. | |
| *Gweithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel* | Gweithio gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer rolau proffil a dylanwad uchel. | 2022/23 |

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 2 Rhagfyr, 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **Pwrpas:** | Cymeradwyo trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf. |
| **Argymhelliad gan:** | Cynghorydd Anne Lloyd Jones,<br>Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | Cynghorydd Nia Jeffreys |
| **Swyddog (ion) Cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ac Iwan Evans, Swyddog Monitro |

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn

- **Mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor i'r dyfodol yn unol â'r egwyddorion sydd wedi eu gosod yn paragraff 9 o'r adroddiad, gyda chyfarfodydd y Cyngor Llawn, Pwyllgor Cynllunio a phwyllgorau craffu i gael eu cynnal o leoliad (yn hybrid) gyda'r gweddill yn parhau yn rhithiol.**

- **Cadarnhau'r cyfrifoldeb i weithredu ar gyfer pennu'r dyddiad cychwyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Chadeirydd y Cyngor, ac o ganlyniad i godi'r  cyfyngiadau presennol.**

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

<u>**Cefndir.**</u>

1. Mae Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn
    - Rhoi hawl mynediad o bell i gyfranogwyr i gyfarfodydd democrataidd ffurfiol.
    - Caniatáu cynnal cyfarfodydd democrataidd ffurfiol unai mewn lleoliad neu yn rhithiol gan ddarparu mynediad i'r cyhoedd i bwyllgorau drwy drefniadau electroneg
    - Gosod disgwyliad i gyhoeddi ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd democrataidd ffurfiol
    - Gosod disgwyliad i we ddarlledu cyfarfodydd democrataidd (disgwylir rheoliadau fydd yn sefydlu ystod y gofyn).

2. Mae nifer o adroddiadau wedi eu cyflwyno ar wahanol elfennau eisoes, gyda'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu trefniadau interim dros dro yn ei gyfarfod ar 8fed o Orffennaf, 2021. Cyflwynwyd diweddariad i gyfarfod y Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref yn amlinellu'r trefniadau ymarferol (uwchraddio'r siambrau er mwyn cynnal cyfarfodydd hybrid) a'r camau eraill sydd angen eu cyflawni er mwyn symud y gwaith yn ei flaen.

3. Roedd adroddiad y 7fed o Hydref yn nodi'r angen i sefydlu Fframwaith Pwyllgorau fydd yn amlinellu pa gyfarfodydd fydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol a pha gyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal o leoliad gyda darpariaeth mynychu o bell (sef yn hybrid).

**<u>Fframwaith Gweithredu Cyfarfodydd a phwyllgorau.</u>**

4. Rydym yn cael ein hatgoffa yn y ddogfen 'Arweiniad Statudol Interim ar Gyfarfodydd Aml-leoliad' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2021 mai diben cyffredinol addasu'r ddeddf i alluogi mynediad o bell oedd "…mwy o hygyrchedd a gwell cyfranogiad gan y cyhoedd mewn llywodraeth leol." Maent hefyd yn nodi fod "cyfleustra cyfranogwyr a gweithrediad effeithlon awdurdodau perthnasol eu hunain yn bwysig ond anghenion y cyhoedd a ddaw yn gyntaf pan fydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud." Bydd yn rhaid i unrhyw drefniadau a sefydlir gwrdd â'r gofynion yn yr arweiniad statudol.

5. Mater o ddisgresiwn yw penderfynu ar pa drefniadau i'w rhoi mewn lle. Mae'r arweiniad statudol yn gosod yr ystyriaethau y dylid eu cloriannu wrth ddod i gasgliad. Mae anghenion democratiaeth leol ac anghenion y cyhoedd yn ystyriaeth hanfodol a blaenllaw wrth benderfynu ar y drefn. Mae'r fframwaith hefyd wedi ystyried yr egwyddorion sylfaenol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, a welir yn y tabl isod.

| Egwyddorion Fframwaith Gweithredu Cyfarfodydd a Phwyllgorau |
|---|
| ✓ Mae angen adeiladu ar lwyddiant y cyfarfodydd rhithiol sydd wedi eu cynnal dros y flwyddyn a hanner diwethaf<br><br>✓ Rydym angen parhau i sicrhau fod ein trefniadau Democratiaeth yn dryloyw i bobl Gwynedd ac yn agored i bawb.<br><br>✓ Dylid ymgeisio at gynnal y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn rhithiol er mwyn:<br><br>o Cyfrannu at yr agenda lleihau carbon trwy leihau teithio i Gynghorwyr a Swyddogion, yn arbennig yn sgil y ffaith fod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd<br><br>o Hybu amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd rhithiol gan ddenu mwy o bobl sy'n gweithio a rhieni ifanc<br><br>o Defnyddio amser Cynghorwyr a Swyddogion yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion teithio<br><br>o Lleihau costau teithio<br><br>o Hybu cyfranogiad ac ymddygiad cadarnhaol |

**Be sy'n cael ei gynnig?**

6. Cyflwynir Fframwaith ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'n debyg y byddai'n synhwyrol datblygu fframwaith fewnol yn nodi disgwyliadau ar gyfer cyfarfodydd eraill y mae Cynghorwyr yn rhan ohonynt, megis cyfarfodydd mewnol, cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol ac hyfforddiant i'r dyfodol.

7. Fel a nodwyd eisoes, mae gofynion y Ddeddf yn golygu y gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithiol llwyr neu wrth ddarparu mynediad o bell lle mae lleoliad penodol megis y Siambr wedi ei adnabod (sef cyfarfod hybrid).

8. Mae'n bwysig nad ydym yn llithro yn ôl i hen drefniadau oherwydd arferiad ac yn colli golwg ar yr egwyddorion a nodwyd uchod. Mae'n bwysig hefyd cofio ein llwyddiant dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Rydym wedi llwyddo i gynnal pob

pwyllgor yn effeithiol yn rhithiol yn y ddwy iaith gan we-ddarlledu nifer ohonynt bellach.  Dyma ein cyfle fel Cyngor i arloesi a gosod disgwyliadau gweithredu cynaliadwy i'r dyfodol.

9. Er mwyn datblygu fframwaith ar seiliau cadarn, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi cefnogi'r egwyddor syml o:

   **a) gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd gwneud hynny.**
   **b) gynnal cyfarfodydd hybrid lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd.**

10. Bydd aelodau'n cofio mai'r cyfarfodydd sydd o ddiddordeb mwyaf i'r cyhoedd oedd sail dewis y pwyllgorau i'w gwe-ddarlledu.  Adnabuwyd y Cyngor llawn, Cabinet, a'r Pwyllgor Cynllunio yn wreiddiol, gan ymestyn y trefniadau gwe-ddarlledu i bwyllgorau craffu hefyd.  Argymhellir dilyn yr un trefn i adnabod y pwyllgorau sydd i'w cynnal drwy drefn hybrid.

11. Mater i'r Cabinet yw sefydlu ei drefniadau ei hun.  Mae'r Cabinet eisoes wedi penderfynu y bydd cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cynnal mewn lleoliad i'r dyfodol, sef y sail "hybrid" arferol.  Mae'r sail ar gyfer y dyraniad yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi uchod, sef fod diddordeb uchel gan y cyhoedd yn y trafodaethau a'r penderfyniadau sy'n cael eu cynnal gan y cyfarfodydd a amlygir .

12. Mae cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliad ynghyd a gwe-ddarlledu yn rhoi yr ystod ehangaf o gyfleon i gael mynediad i drafodaethau. Fe nodir hefyd fod argymhelliad ar gyfer cynnal ystod o gyfarfodydd drwy'r drefn rhithiol yn unig.  Felly, fel fframwaith cyfarfodydd mae hyn yn adlewyrchu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015.

13. Gellir gweld tabl o effaith yr argymhelliad uchod fesul pwyllgor yn **Atodiad A**. Cydnabyddir y byddai eithriadau i'r trefniadau, megis cyfarfodydd cyntaf yn dilyn etholiadau.  Yn ogystal, bydd yn angenrheidiol adolygu ein trefniadau o fewn cyfnod rhesymol.

14. Lle cynhelir cyfarfodydd yn hybrid, argymhellir fod Cynghorwyr yn ystyried o ddifri os oes rhaid teithio i'r lleoliad, gan gofio na fydd amgylchiadau yn y siambrau a'r swyddfeydd yr un fath ag yr oeddent yn flaenorol.

**<u>Mynediad i'r cyhoedd</u>**

15. Law yn llaw a'r trefniadau uchod mae'n angenrheidiol sicrhau a datgan sut yr ydym am sicrhau mynediad i'r cyhoedd i'n pwyllgorau.  Ar gyfer pwyllgorau rhithiol bydd

mynediad i'r cyhoedd drwy wylio'r gwe ddarlledu neu drwy gysylltu i gael mynediad fel arall.  Bydd manylion ar flaen y rhaglen fel sy'n digwydd yn gyfredol.

16. Ar gyfer cyfarfodydd hybrid lle bo lleoliad penodol wedi ei nodi, bydd modd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn y siambr.  Os yw'r cyfarfod hefyd yn cael ei we ddarlledu bydd mynediad i'r cyhoedd trwy'r gwe ddarllediad hefyd.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

17. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddal sylw priodol at yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a gormesu anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiadau eraill a waherddir dan ddarpariaethau'r Ddeddf.  Yn ogystal mae angen cynyddu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthnasau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad oes ganddynt (y Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol). Yn unol â'r gofyn yng Nghymru ac er cyfarch y dyletswydd yma, mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi a'i ddiweddaru ar gyfer cyfarfodydd hybrid.  Mae wedi ei atodi yn **Atodiad B** ac nid yw wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad.

**Ymgynghori**

18. Rydym wedi gwrando ar y sylwadau sydd wedi eu cynnig gennych fel Cynghorwyr mewn amryw o gyfarfodydd ac mewn ymateb i'r holiadur diweddar.    Mae'n deg casglu fod 75 ateb gwahanol gennych fel Cynghorwyr ar gyfer y sefyllfa ddelfrydol i'r dyfodol wrth drafod pwyllgorau unigol, gyda phawb yn ystyried ei sefyllfa b/personol ei hun.

19. Rydym wedi derbyn sylwadau gan bobl Gwynedd hefyd.  Yn y Pwyllgor Cynllunio derbyniwyd sylwadau fod y trefniadau cyfredol sy'n galluogi mynychu yn rhithiol neu recordio darn i'w chware i'r pwyllgor wedi bod yn welliant ar y trefniadau blaenorol gan eu bod yn fwy hwylus i bobl Gwynedd.  Ar y llaw arall, mae eraill wedi mynegi eu rhwystredigaeth o wylio cyfarfodydd ar we-ddarllediad yn unig gan nad yw'n cynnig yr un profiad a mynychu yr oriel gyhoeddus mewn siambr gan nad yw Aelodau mor ymwybodol o bresenoldeb y cyhoedd wrth ddod i benderfyniadau.

20. Tra bo'r  fframwaith yn ceisio ymateb i'r prif negeseuon sydd wedi eu lleisio dros y misoedd diwethaf, mae'r pwyslais ar <u>sicrhau fframwaith gynaliadwy i'r dyfodol, pwy bynnag fydd y Cynghorwyr fydd wedi eu hethol ar ôl Mai 2022, yn seiliedig ar yr egwyddorion uchod a'r arweiniad statudol</u>.

**Amserlen**

21. Fel yr adroddwyd i gyfarfod y Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, 2021, un elfen yw'r uchod o'r gwaith paratoi ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Yn ogystal â mabwysiadu'r Fframwaith Cyfarfodydd lleol heddiw, mae'n angenrheidiol parhau gyda'r datblygiadau technegol ac ymarferol, a'r cyfan yn ddarostyngedig i ganllawiau'r Llywodraeth gyda coronafirws.

22. Mae'n rhaid cael seilwaith dechnegol gryf ar gyfer sicrhau llwyddiant y trefniadau hybrid. Mae'r siambrau wedi eu huwchraddio ers diwedd Medi eleni, ond wrth brofi rydym yn wynebu ambell rwystr ac yn gweithio ar ddatrysiadau yn gyfredol. Yn ogystal, mae'n rhaid bod yn sicr fod y trefniadau yn ddigonol i sicrhau y gall cyfranogwyr gymryd rhan llawn sut bynnag eu bod yn mynychu'r cyfarfod. Rhaid hefyd bod yn fodlon fod trefniadau penderfynu yn gadarn er cynnal hyder y cyhoedd yn ein trefniadau democrataidd.

23. Ymhellach, rydym yn tybio y bydd cymryd rhan mewn cyfarfod hybrid, ac yn arbennig cadeirio cyfarfod hybrid yn brofiad gwahanol ac yn gofyn am sgiliau gwahanol a newydd. Bydd yn angenrheidiol adnabod ymarfer da ar gyfer cadeirio cyfarfodydd o'r fath a chynnig hyfforddiant i Gynghorwyr

24. Yn ogystal, nid oes newid yn bresennol i ganllawiau Llywodraeth Cymru y dylai pawb barhau i weithio o gartref os yn bosib ac felly nid yw'r argymhelliad yn cynnig gweithredu'r trefniadau arfaethedig hyd nes y bydd yr arweiniad hwnnw yn caniatáu hynny.

25. Yn sgil yr uchod, mae'n amhosib rhoi dyddiad ar gyfer cychwyn y trefniadau newydd. Pe caiff yr argymhelliad ei gymeradwyo, byddwn yn adrodd ymhellach er mwyn datgan yn ffurfiol pan fydd yn bosib i'r trefniadau newydd ddod i rym.

26. Mae Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod yr egwyddorion uchod ar gyfer y fframwaith pwyllgorau ac yn cyflwyno'r trefniadau i gael eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn.

**3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

3.1 Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y Fframwaith yn eu cyfarfod ar 16/11/2021. Yn ogystal, gan fod trefniadau'r Cabinet ar wahân, penderfynodd y Cabinet ar eu trefniadau yn eu cyfarfod ar 09/11/2021.

**3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cyfrannu at gynnwys yr adroddiad ac felly nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae adnoddau priodol wedi'u blaenoriaethu er mwyn sicrhau y bydd cefnogaeth addas yn ei le i'r cyfarfodydd perthnasol weithio'n 'hybrid', os mai hynny yw penderfyniad y Cyngor.

**ATODIADAU I'R ADRODDIAD:**

Atodiad A - Fframwaith Cyfarfodydd lleol i'r dyfodol

Atodiad B - Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb

**ATODIAD A**

**Fframwaith cyfarfodydd lleol i'r dyfodol (Cyngor Gwynedd)**

| **Math o gyfarfod** | **Pwyllgorau dan sylw** |
|---|---|
| **Hybrid** | • Cyngor llawn<br>• Cabinet<br>• Cynllunio<br>• Craffu |
| Rhithiol llwyr | • Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth<br>• Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>• Pwyllgor Safonau<br>• Pwyllgor Iaith<br>• CYSAG<br>• Cyd bwyllgor ymgynghorol Lleol<br>• Pwyllgor Pensiynau<br>• Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion *<br>• Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol (a'r is-bwyllgorau trwyddedu cyffredinol a chanolog)<br>• Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd<br>• Unrhyw is-bwyllgor |
| Eithriadau posib | Pwyllgor Apelau Cyflogaeth (dibynnol ar gais yr unigolyn).<br><br>Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion - ystyriaeth pan fo cyfweliadau – rhithiol fel arall<br><br>Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau lle cynhelir gwrandawiadau quasi- farnwriaethol. |

Bydd Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Porthmadog/Pwllheli/ Aberdyfi/ Abermaw i'w hystyried eto.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Prosiect Mynediad o Bell a mynediad i'r cyhoedd.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ar gyfer galluogi mynediad o bell i gynghorwyr a sicrhau mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed trafodaethau mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Yn wreiddiol bu i'r prosiect edrych ar sicrhau fod modd
a) cynnal cyfarfodydd yn rhithiol llwyr (neb mewn ystafell gyfarfod)
b) i Gynghorwyr gysylltu o bell gydag unrhyw gyfarfod o bwyllgorau'r Cyngor petaent yn dymuno gwneud hynny.

Erbyn mis Medi 2020 bu i'r prosiect edrych ar sicrhau mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed trafodaethau ym mhrif bwyllgorau'r Cyngor wrth eu cynnal yn rhithiol, gan ei fod yn flaenoriaeth gennym.

Bellach, yn sgil gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae angen gweithio tuag at

- Sicrhau mynediad o bell i gynghorwyr pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lleoliad (yn ddibynnol ar gyfyngiadau covid-19)
- Mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed y drafodaeth mewn cyfarfodydd cyhoeddus

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith - ar ran Bwrdd Prosiect Mynediad o Bell |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

- Cafodd yr asesiad ei gychwyn ym mis Mehefin 2020 wrth baratoi at gynnal cyfarfodydd rhithiol llwyr am y tro cyntaf yn sgil argyfwng covid.
- Adolygwyd yr asesiad ym mis Mehefin 2021 wrth ystyried datblygiadau pellach i'r prosiect, yn benodol gyrru ymlaen gyda threfniadau cyfarfodydd hybrid. (fersiwn 2)
- Ail ymweld â'r asesiad ym mis Hydref 2021, nodir yr angen i ddiweddaru ymhellach wrth brofi y trefniadau hybrid dros y misoedd nesaf. (fersiwn 3)

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cynghorwyr
Gwasanaeth TG
Adran Eiddo
Staff

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

1. Ymgynghorwyd yn anffurfiol gyda Chynghorwyr Gwynedd cyn cynnal cyfarfodydd rhithiol llwyr drwy Teams a chyn cynnal cyfarfodydd rhithiol llwyr drwy Zoom – gyda'r defnyddwyr di-gymraeg yn benodol.
2. Ymgynghorwyd ar drefniadau cynnal cyfarfodydd pwyllgorau (ac eraill) i'r dyfodol gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 18/02/2021 a rhoi cyfle i'r holl aelodau gyflwyno sylwadau fel rhan o holiadur bodlonrwydd ym Mehefin 2021.
3. Cyflwynwyd trefniadau interim, sef parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig, ym mis Gorffennaf 2021 (Cabinet - 07/07/21, Cyngor llawn – 09/07/21)

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

1. Addaswyd y ddarpariaeth wreiddiol o ddefnyddio Teams i ddefnyddio Zoom yn sgil sylwadau yr aelodau gan fod y ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd drwy Zoom yn cynnig gwasanaeth mwy syml a theg i'r rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai di-gymraeg, gyda phawb yn rhan o'r un cyfarfod. Gwnaethpwyd yr addasiad ar ôl cael sicrwydd o'r elfennau diogelwch yn ymwneud â thechnoleg.

2. Mae nifer fawr o aelodau wedi tynnu sylw at y buddion i drefniadau cynnal cyfarfodydd yn rhithiol, yn arbennig
    - Wrth gyfrannu at yr agenda lleihau carbon trwy leihau teithio
    - Er mwyn hybu amrywiaeth mewn democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd rhithiol gan ddenu mwy o bobl sy'n gweithio a rhieni ifanc
    - Trwy ddefnyddio amser Cynghorwyr yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion teithio
    - A lleihau costau teithio i'r Cyngor

3. Yn ychwanegol cyflwynwyd nifer o sylwadau ar gyfer trefniadau pwyllgorau i'r dyfodol gan Gynghorwyr mewn amrywiol gyfarfodydd, gyda rhan fwyaf yn datgan yr angen am gyfarfodydd rhithiol mewn cyfuniad gyda chyfarfodydd hybrid.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Gweithredwyd yn wreiddiol mewn ymateb i'r argyfwng pandemig covid-19 a'r angen i barhau gyda threfniadau democratiaeth o fewn y cyfyngiadau o beidio â mynychu swyddfeydd (yn cynnwys siambrau'r Cyngor).

Mae'r cyfyngiadau yn parhau o safbwynt "gweithio o adref lle'n bosib". Yn ychwanegol, mae angen ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i

- Sicrhau mynediad o bell i gynghorwyr pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lleoliad (yn ddibynnol ar gyfyngiadau covid-19)
- Mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed y drafodaeth

## 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae angen ymgynghori gyda charfan sydd ag anghenion ychwanegol e.e. anghenion golwg a nam ar y clyw i sicrhau fod y ddarpariaeth yn briodol ar eu cyfer.

| |
|---|
| Mae angen ymgynghori ymhellach yn dilyn sefydlu y trefniadau hybrid. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl efo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | a) Cynnal cyfarfodydd Rhithiol<br>Mae effaith bositif ar y Gymraeg a'r Saesneg trwy gynnig y ddarpariaeth i gyfarfodydd rhithiol dros Zoom gan fod cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal drwy'r Gymraeg a'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd ei angen.<br><br>b) Mynediad o bell<br>Bydd yn ofynnol sicrhau'r gallu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw un sy'n mynychu (mewn ystafell gyfarfod neu o bell). Rydym yn gweithio ar ddarpariaeth hybrid yn gyfredol.<br><br>c) Mynediad i'r cyhoedd<br>Mae mynediad i'r cyhoedd trwy we-ddarlledu, sy'n digwydd yn y ddwy iaith. |
| **Anabledd** | Positif / negyddol / dim | Awtistiaeth – Gall fod yn effaith positif i rai trwy leihau gor-bryder o gymharu a bod mewn siambr. Ar y llaw arall, gall fod ag effaith negyddol os yw'r amser ar y sgrin yn ormodol, er y gall unigolyn ddewis gadael y sgrin.<br><br>Cyflyrau iechyd meddwl – gall fod ag effaith positif i rai sy'n dioddef cyflyrau megis gor-bryder trwy ei wneud yn haws iddynt gymryd rhan mewn cyfarfod drwy ddiffodd eu camerâu neu beidio teimlo pwysau ychwanegol. Gall effeithio yn negyddol trwy beidio cael cyswllt gydag unigolion eraill a'r gor-bryder yn cynyddu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Amhariadau golwg – gall fod effaith negyddol o amser gormodol ar sgrin.<br><br>Amhariadau clyw – Gall fod effaith positif gan fod mynediad o bell yn caniatáu addasu lefel sain neu ddefnyddio clustffonau i hepgor sain cefndirol.<br><br>Amhariadau corfforol – effaith positif gan fod y gofyn am leoliad penodol a gofynion teithio yn cael eu dileu. |
| **Rhyw** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Oedran** | Positif / negyddol / dim | Mae'n debyg fod effaith positif am fod i rai o fod yn gallu mynychu o bell heb orfod gadael cartref. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Effaith positif i alluogi merched beichiog a mamau sy'n bwydo o'r fron i ymuno o gartref os ydynt yn dewis, a pheidio gorfod teithio i safle penodol.<br><br>Effaith positif ar rieni trwy leihau'r amser teithio i leoliad a galluogi rhieni i ymuno o bell. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Cyfarfodydd Rhithiol. Effaith positif – mae mwy o ddisgyblaeth mewn cyfarfodydd rhithiol ac felly cyfle cyfartal i bawb gael siarad. Gall unigolion ddewis cymryd rhan heb gael eu gweld hefyd.<br><br>Ymuno o bell. Ydi, effaith positif fel uchod. Fodd bynnag, hyd y bydd y ddarpariaeth yn ei le nid ydym yn gwybod os bydd cyfle cyfartal i bawb ynteu a fydd y rhai sy'n ymuno o bell yn teimlo eu bod yn cael eu anwybyddu.<br><br>Mynediad i'r cyhoedd – mae'r trefniadau newydd am wella mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed cyfarfodydd y cyngor gan sicrhau tryloywder yn ein trefniadau democratiaeth. Nid oes gofyn i unigolion deithio i leoliad arbennig ar amser arbennig.<br><br>Ar y llaw arall gall fod effaith negyddol gan fod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn ddibynnol ar unigolyn â mynediad i gyfrifiadur ac i'r we. Gall unigolyn sydd heb ddarpariaeth ddefnyddio'r llyfrgell leol fel arall (yn amodol i gyfyngiadau covid). |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi a nac ydi | Gall cyfarfodydd rhithiol a mynychu o bell fod yn bositif mewn meithrin perthnasau da gan fod lleihad mewn gofynion amser yn caniatáu i rai na fyddai'n gallu mynychu fel arall i wneud hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ar y llaw arall, mae amheuaeth ei bod yn anoddach meithrin perthynas dda wrth ddechrau dod i adnabod rhywun trwy gyfrwng rhithiol ac yn fwy o sialens ar gyfer y rhwydweithio anffurfiol. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'r newidiadau sydd wedi eu hamlinellu uchod wedi galluogi i drefniadau democrataidd y Cyngor, sy'n cynnwys cynnal pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, i barhau yn ystod y cyfnod argyfwng.

Mae'r newidiadau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol neu'n hybrid, a galluogi i Aelodau etholedig fynychu o bell yn debygol o gael effaith bositif ar amryw o'r nodweddion cydraddoldeb fel a amlygwyd yn 3.1 – yn bennaf ar gyfer merched beichiog, merched sy'n bwydo o'r fron neu unigolion sydd ag amhariad corfforol neu gyflwr iechyd meddwl.

Yn ogystal, mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau mynediad i'r cyhoedd trwy we-ddarllediadau neu drefniadau amgen yn galluogi mwy o bobl Gwynedd i gael mynediad at ein trefniadau democratiaeth gan olygu ein bod yn agored a thryloyw.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Rydym yn cydnabod fod dwy ochor i bob ceiniog, ac wedi amlinellu rhai effeithiau negyddol posib yn 3.1 uchod.

Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | √ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |

| | |
|---|---|
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Mae'r effeithiau negyddol posib sydd wedi eu amlinellu yn 3.1 uchod yn cael ystyriaeth gyson wrth i'r datblygiadau yn y gwaith fynd yn eu blaenau.<br><br>Byddwn yn adolygu'r gwaith yn gyson gan adrodd ar y diweddariadau i'r Cyngor llawn. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i fod yn cyhoeddi ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd a'n trefniadau ar gyfer mynediad i'r cyhoedd.<br>Cyflwynwyd trefniadau interim i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2021, gydag adolygiad o'r trefniadau i'w gyflwyno ym mis Rhagfyr 2021. |

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 2 Rhagfyr, 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **Pwrpas:** | Adrodd ar newidiadau Cyfansoddiadol cyhngyn a'r Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio a cheisio arweinaid ar faint y Pwyllgor at y dyfodol |
| **Adroddiad :** | Swyddog Monitro |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng Nia Jeffreys** |

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn

1. **Yn nodi y newidiadau gan y Swyddog Monitro i'r Cyfansoddiad yn Atodiad 1.**

2. **Yn cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i osod cyfanswm maint o 12 aelod etholedig a 6 aelod lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu  Archwilio ar gyfer Mai 2022**

**CEFNDIR**

1. Mae newidiadau penodol i swyddogaethau a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn y Ddeddf Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

   - Newidir enw y Pwyllgor i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mewn grym
   - Mae'n ysgwyddo rôl ynglŷn a trefniadau  cwynion – mewn grym
   - Rhoddir swyddogaethau y penodol ynglŷn a'r trefniadau rheoli perfformiad newydd yn Rhan 6 o'r Ddeddf – mewn grym
   - Byd gofyn newid aelodaeth y Pwyllgor o Fai 2022 Er sicrhau fod 1/3 yr aelodaeth yn aelodau lleyg.- Mewn grym Mai 2022
   - Rhaid penodi y cadeirydd o blith yr aelodau lleyg. – Mewn grym Mai 2022

**CYFANSODDIAD**

2. Mae'r newidiadau a nodir yn statudol ac yn cymryd effaith o'r dyddiad a nodir uchod. Mae Atodiad 1 yn dangos y newidiadau i'r Cyfansoddiad ( wedi eu hamlygu ) rwyf wedi eu gweithredu o dan paragraff 2.6.3 gan eu bod mewn grym yn ac statudol. Bydd y darpariaethau sydd eto i ddod i rym yn cael eu sefydlu ar gyfer Mis Mai 2022.

> **2.6.3 Newid Deddfwriaethol**
>
> Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y ddeddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth.

**AELODAETH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHAU AC ARCHWILIO**

3. Mae'r gofyn ar gyfer traean o aelodau lleyg gan gynnwys Cadeirydd lleyg ( fydd yn weithredol ar 5 Mai 2022) angen ei ymgorfforі yn y Cyfansoddiad i ddod yn weithredol ar yr amser priodol. Golygai aelod Lleyg person;

   - nad yw yn aelod neu swyddog awdurdod lleol,
   - nad yw wedi bod yn aelod neu swyddog awdurdod lleol ar unrhyw adeg o fewn deuddeg mis cyn y penodiad,
   - nad yw yn briod neu yn bartner sifil i aelod neu swyddog awdurdod lleol

4. Esgor hyn ar gwestiwn ynglŷn a maint priodol y pwyllgor. Ar hyn o bryd mae 18 aelod o'r Pwyllgor ynghyd ag 1 aelod lleyg. Ar y sail yma byddai cyfansoddiad newydd yn arwain at 6 aelod lleyg a 12 aelod etholedig ar y Pwyllgor o Fai 2022.

5. Cychwynnwyd ar y broses ar gyfer penodi aelodau lleyg eisoes. Roedd hyn yn ymateb i gyfle i gymryd rhan mewn ymgyrch hysbysebu eang gan CLlLC. Mae trefn benodi wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn 2017. Yn gryno wedi hysbysebu yn wasg bydd Panel sydd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Aelod Cabinet Cyllid wedi eu cynghori gan y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cyfreithiol yn cyfweld. Byddai'r Panel yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor fyddai penderfynu ar benodi aelod lleyg byddai hyn am dymor o 4 blynedd. Bwriedir cynnal y broses fel fod y penodiadau yn cael eu hargymell i'r Cyngor ym Mis Mawrth. Bydd hyn yn caniatáu sefydlu y pwyllgor mewn da bryd ar gyfer pan ddaw y darpariaethau i rym.

6. Cyn y gellir cwblhau y broses yn amlwg mae angen penderfyniad ar faint cyfansawdd y pwyllgor i'r dyfodol. Mae nifer o opsiynau wrth gwrs. Adroddwyd ar y mater i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 18 fed o Dachwedd a chan ddal sylw at faint cyfredol Pwyllgorau Craffu argymhelliad y Pwyllgor oedd i penodi pwyllgor gyda cyfanswm o 18 aelod sef 6 aelod lleyg a 12 aelod etholedig.

**SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Awdur yr adroddiad.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma a cadarnhaf fod proses priodol ar droed i recriwtio aelodau lleyg ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (mewn pryd ar gyfer Mai 2022). Credaf fod argymhelliad y Pwyllgor i'r Cyngor ynglŷn â nifer yr aelodau yn gall ac ymarferol.

## Atodiad 1

## ADRAN 13 RHAN 1

## PWYLLGOR A LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.

- Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.

- Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad.

**Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.**

**FF. Swyddogaethau Amrywiol**

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo - *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd). | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. | |

**Swyddogaethau o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011**

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011( fel y diwygwyd) :

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol **<u>asesu perfformiad</u>** a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) **<u>I adolygu ac asesu gallu’r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeihtiol</u>**

(e) **<u>I lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas a gallu’r awdurdod I ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol.</u>**

(f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(h) **<u>Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf LLywodreath Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021 (perfformiad prif gynghorau a’u llywodrethu).</u>**

**Swyddogaethau Eraill.**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntion adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau’r adroddiadau;

(v) adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a’r gweithlu a’r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a’r Tim Arweinyddiaeth.